MILLER
Research Evaluation Consulting



# Gwerthusiad o'r Prosiect Mentora ITM (Ieithoedd Tramor Modern)

Prifysgol Caerdydd

Drafft Terfynol / 27/02/2025

info@miller-research.co.uk
01873 851880
miller-research.co.uk/

Gwerthusiad o'r Prosiect Mentora ITM

Joseff Howells, Katie Lloyd, Kerry KilBride, Nick Morgan, Scout Astley Jones / Miller Research (UK) Ltd.

**Cyfieithwyd gan Bethan Wyn Speakman.**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joseff Howells

joseff@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

MILLER

Research Evaluation Consulting

# Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** ..... i

Canfyddiadau Allweddol ..... i

Effaith Gyffredinol y Prosiect ..... ii

1. **Rhagarweiniad** ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cefndir y Prosiect Mentora ITM ..... 1

Y Strategaeth Dyfodol Byd-eang ..... 5

Cefndir y Gwerthusiad ..... 7

Strwythur yr adroddiad hwn ..... 9

2. **Methodoleg y Gwerthusiad** ..... 10

Trosolwg o'r Dull Gwerthuso ..... 10

Gwaith Maes ..... 11

Dull Gwerthuso: Prif Gryfderau a Chyfyngiadau ..... 11

Rhagdybiaethau'r Dull Gwerthuso ..... 14

3. **Canfyddiadau** ..... 16

Safbwyntiau Athrawon a Dysgwyr ..... 16

Safbwyntiau Mentoriaid ..... 26

Cyfathrebu a Chydweithio ..... 30

Effeithiau a Welwyd ac Aliniad ag Amcanion Strategol ..... 36

Safbwyntiau'r Rhanddeiliaid ar Aliniad Strategol: ..... 39

4. Rhwystrau a Heriau ..... 42

5. Dadansoddiad Gwrthffeithiol ..... 46

Dadansoddiad Effaith ..... 49

6. **Casgliadau** ..... 52

7. **Argymhellion** ..... 53

Argymhellion Strategol ar gyfer Mentora ITM yn y Dyfodol ..... 53


MILLER
Research Evaluation Consulting

Awgrymiadau ar gyfer Gwella'r Broses o Gynllunio, Gweithredu, a Gwerthuso ........ 54
Cwestiynau i'r Tîm Darparu: ........ 56
Cwestiynau i Athrawon: ........ 59
Cwestiynau i Fentoriaid: ........ 61
Cwestiynau i Ddysgwyr (a gafodd eu mentora) yn ystod y sesiynau dysgwr i ddysgwr: ........ 63
Cwestiynau i bartneriaid Consortia: ........ 65
Cwestiynau i Staff/Arweinwyr yn y Brifysgol: ........ 66

## Rhestr tablau

Tabl 1.1: Aliniad Polisi'r Prosiect Mentora ITM ............................................. 3

## Rhestr lluniau

Ffigur 3.1: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae'r mentora wedi cynyddu fy niddordeb mewn ieithoedd a diwylliant y tu allan i'r ysgol.' ........................................................ 18

Ffigur 3.2: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae cael fy mentora wedi fy ngwneud i'n fwy tebygol o ddewis iaith dramor fodern fel pwnc TGAU.' ...................................................... 20

Ffigur 3.3: Canlyniadau Arolwg Ymadael Athrawon y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae cymryd rhan yn y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y niferoedd TGAU eleni.' ...................................................................... 20

Ffigur 3.4: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae mentora wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus yn fy nosbarthiadau iaith dramor.' ........................................................... 21

Ffigur 3.5: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae'r mentora wedi gwneud i mi feddwl am fynd i'r brifysgol yn y dyfodol.' ....................................................................................... 23

Ffigur 3.6: Canlyniadau Arolwg Ymadael Athrawon y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: 'Pa mor effeithiol fu'r prosiect wrth wella dyheadau'r disgyblion i fynd i'r brifysgol yn gyffredinol? ....... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 3.7: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i’r cwestiwn: Pa mor debygol ydych chi o argymell y sesiynau mentora i eraill? ..... 25
Ffigur 3.8: Canlyniadau Arolwg Ymadael Athrawon y Prosiect Mentora ITM i’r cwestiwn: Pa mor debygol ydych chi o argymell y sesiynau mentora i eraill? ..... 25
Ffigur 3.9: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i’r cwestiwn: I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r datganiad canlynol? ‘Mae’r prosiect wedi rhoi sgiliau i mi y gallaf eu defnyddio y tu allan i’r prosiect.’ ..... 27
Ffigur 3.10: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i’r cwestiwn: I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r datganiad canlynol? ‘Mae’r prosiect wedi gwneud i mi ystyried mynd i addysgu.’ ..... 28
Ffigur 3.11: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i’r cwestiwn: Pa sgiliau cyflogadwyedd wnaethoch chi eu datblygu drwy gymryd rhan yn y prosiect? ..... 29
Ffigur 3.12: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i’r cwestiwn: Pa mor ddefnyddiol oedd y cynlluniau sesiynau a gawsoch chi gan dîm y prosiect? ..... 31
Ffigur 3.13: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i’r cwestiwn: Pa mor gefnogol oedd eich Cydlynydd Prosiect? ..... 34
Ffigur 3.14: Canlyniadau Arolwg Ymadael Athrawon y Prosiect Mentora ITM i’r cwestiwn: Pa mor gefnogol oedd eich Cydlynydd Prosiect? ..... 35

GLOSSARY

## Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Safon Uwch | Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch (Lefel A) |
| MDaPh | Maes Dysgu a Phrofiad |
| CiG | Cwricwlwm i Gymru |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch |
| ILICh | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
| ITM | Ieithoedd Tramor Modern |
| TAR | Tystysgrif Addysg i Raddedigion |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

**Nodyn:** Yn sgil y Cwricwlwm i Gymru (CiG), rydyn ni wedi gweld newid o ran terminoleg o Ieithoedd Tramor Modern (ITM) i Ieithoedd Rhyngwladol (IRh). Mae'r newid hwn yn cyd-fynd â gweledigaeth y CiG i fabwysiadu dull mwy byd-eang a chynhwysol o ddysgu ieithoedd. Mae'r term "Ieithoedd Rhyngwladol" yn adlewyrchu'r persbectif mwy eang hwn, ond yn parhau i gyfeirio at y "tair iaith" sydd wedi cael eu haddysgu mewn ysgolion yn draddodiadol – Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Er i'r derminoleg swyddogol newid, mae'r Prosiect Mentora ITM wedi cadw ei enw gwreiddiol. Penderfynwyd ar hyn er mwyn osgoi dryswch i athrawon ac ysgolion, sy'n gyfarwydd â'r prosiect o dan y teitl sefydledig.

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Prosiect Mentora ITM, sy'n cael ei ariannu o dan strategaeth Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru ers 2015, wedi dangos ei werth fel menter addysgol drawsnewidiol. Wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r dirywiad yn y niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern (ITM) yng Nghymru, mae'r prosiect yn hyrwyddo amlieithrwydd, yn meithrin dinasyddiaeth fyd-eang, ac yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy i ddysgwyr. Caiff ei reoli gan dîm y prosiect ym Mhrifysgol Caerdydd mewn partneriaeth ag wyth prifysgol arall yng Nghymru, ac mae wedi esblygu i ateb anghenion dysgwyr, mentoriaid sy'n fyfyrwyr ac ysgolion. Mae hefyd yn cydymffurfio â pholisïau addysgol allweddol, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru.

**Canfyddiadau Allweddol**

*Effaith Gadarnhaol Arwyddocaol ar Ddysgwyr*

Mae'r prosiect wedi llwyddo i roi hwb i hyder dysgwyr, a chynyddu eu brwdfrydedd a'u chwilfrydedd am ieithoedd. Mae wedi gwneud dysgwyr yn fwy ymwybodol o ieithoedd fel sgiliau trosglwyddadwy, sy'n berthnasol yn ddiwylliannol ac ymarferol. Mae trafod diwylliant bwyd, chwarae gemau gydag idiomau, a defnyddio cerddoriaeth wedi helpu dysgwyr i gysylltu dysgu iaith gyda phrofiadau go iawn, gan ennyn eu diddordeb a chreu syniadau cadarnhaol am astudio ieithoedd.

*Twf a Datblygiad Proffesiynol y Mentor*

Nododd y mentoriaid dwf personol a phroffesiynol sylweddol, gan gynnwys mwy o hyder a gwell sgiliau rhyngbersonol a threfnu. Dywedodd llawer o'r mentoriaid eu bod yn ddiolchgar i'r prosiect am wella eu cyflogadwyedd, eu hysbrydoli i ddilyn gyrfa addysgu, a rhoi sgiliau trosglwyddadwy iddynt sy'n berthnasol i lawer o lwybrau gyrfa posibl.

*Gwell Cymorth i Ysgolion a Mwy o Gydweithio*

Roedd y prosiect yn darparu adnoddau hollbwysig i ysgolion, yn enwedig ysgolion heb lawer o staff iaith. Roedd yn helpu i lenwi bylchau o ran adnoddau ac ymgorffori sesiynau mentora o fewn amserlenni'r ysgolion. Drwy gydweithio, llwyddodd y mentoriaid a'r athrawon i gyfoethogi'r cwricwla iaith a sicrhau sesiynau mentora llwyddiannus.

*Alinio Strategol a Chadernid y Prosiect*

Mae'r prosiect yn alinio'n effeithiol â Chwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru, gan gefnogi ei nodau i feithrin dinasyddiaeth fyd-eang ac amlieithrwydd. Dangosodd gadernid a hyblygrwydd hefyd drwy drosglwyddo i fod ar-lein yn ystod y pandemig, gan ymestyn ei gyrhaeddiad a pharhau i ymgysylltu er gwaethaf yr heriau logistaidd.

*Llwybrau Cryfach i Addysg Uwch a Gyrfaoedd*

*Llwyddodd y prosiect i ysbrydoli dysgwyr i ddilyn addysg uwch a thynnu eu sylw at gyfleoedd gyrfa sy'n gysylltiedig â sgiliau iaith. Llwyddodd i'w hannog i ystyried ieithoedd fel pethau ymarferol a difyr, gan ddangos iddynt fod dysgu ieithoedd yn berthnasol i'w datblygiad personol a phroffesiynol.*

*Rhwystrau a Heriau*

Mae heriau strwythurol, fel gwrthdaro pynciau mewn blociau opsiynau TGAU, cylchoedd cyllido blynyddol, a recriwtio mentoriaid sy'n siarad Cymraeg, yn feysydd allweddol lle mae angen gweithredu strategol.

**Effaith Gyffredinol y Prosiect**

Rhwng 2015 a 2024, mae'r prosiect wedi profi ei allu i oresgyn problemau systemig ym maes addysgu ieithoedd. Mae wedi cyfrannu at weledigaeth Cymru i fod yn genedl amlieithog er gwaethaf heriau strwythurol o fewn ysgolion, cyfyngiadau cyllido, a hen ganfyddiadau negyddol am werth dysgu ieithoedd. Mae wedi meithrin brwdfrydedd dros ddysgu ieithoedd, helpu i ddatblygu athrawon a mentoriaid, ac addasu'n effeithiol i gyd-destunau addysgol sy'n newid yn gyson.

# 1. Rhagarweiniad

**Cefndir y Prosiect Mentora ITM**

1.1 Mae'r prosiect Mentora Ieithoedd Tramor Modern (ITM) yn fenter gwerth £2.3 miliwn sy’n cael ei ariannu gan strategaeth Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru, gyda’r cyfanswm hwn yn cael ei dderbyn dros gyfnod o ddeng mlynedd ers ei sefydlu yn 2015. Wedi'i reoli gan dîm y prosiect yn Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd mewn cydweithrediad ag wyth prifysgol arall yng Nghymru[1], mae'r prosiect yn gweithredu fel pont rhwng sefydliadau addysg uwch ac ysgolion uwchradd ledled Cymru. Mae’r prosiect wedi chwarae rôl weithredol yng ngrŵp llywio’r cynllun Dyfodol Byd-eang ac wedi helpu i ddatblygu pob un o gynlluniau strategol y cynllun. Mae’r cynllun Dyfodol Byd-eang yn cefnogi cydweithio a chyd-greu gydag amrywiaeth o bartneriaid, sydd wedi cryfhau’r prosiect a gwella’r cydweithio ar draws y sector.

1.2 Bellach yn ei ddegfed flwyddyn, mae'r prosiect Mentora ITM yn parhau i wneud cyfraniad mawr at hybu ieithoedd rhyngwladol a’r niferoedd sy’n dewis eu hastudio yng Nghymru. Mae'r prosiect yn recriwtio ac yn hyfforddi myfyrwyr prifysgol sy’n frwdfrydig dros ieithoedd (myfyrwyr ieithoedd rhyngwladol yn ogystal â myfyrwyr sydd â sgiliau amlieithog sy'n astudio amrywiaeth o bynciau) i gyflwyno sesiynau mentora rhyngweithiol a difyr i ddysgwyr cyn TGAU. Nod y prosiect yn y pen draw yw ysbrydoli pobl ifanc i ddewis ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU a thu hwnt, gan fynd i'r afael â'r dirywiad parhaus yn y niferoedd sy'n dewis ieithoedd rhyngwladol.

1.3 Mae'r prosiect wedi tyfu'n aruthrol ers ei sefydlu, gan ehangu ei gyrhaeddiad i weithio â 124 o ysgolion uwchradd ledled Cymru ym mlwyddyn academaidd 2023-2024. Mae wedi addasu i flaenoriaethau polisi allweddol, gan barhau i gyd-fynd yn agos â'r Cwricwlwm i

[1] Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Wrecsam

Gymru ac ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[2]. Yn arbennig, mae'r prosiect wedi datblygu adnoddau addysgol arloesol sy'n cefnogi Maes Dysgu a Phrofiad newydd y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh).

1.4 Trwy gydol y prosiect, mae Mentora ITM wedi addasu i heriau allanol. Yn ystod pandemig COVID-19 yn arbennig, llwyddodd y prosiect i ddefnyddio dulliau addysgu o bell, gan barhau i ymgysylltu â dysgwyr a manteisio ar y profiadau hyn i wella ei adnoddau digidol.

1.5 Wrth i gam cyfredol y strategaeth Dyfodol Byd-eang (2022-2025) ddirwyn i ben ym mis Mawrth 2025, mae Llywodraeth Cymru a thîm prosiect Mentora ITM bellach yn ystyried effaith hirdymor y prosiect. Bwriad y gwerthusiad oedd pennu sut all y prosiect Mentora ITM barhau i esblygu i gefnogi sector ieithoedd rhyngwladol Cymru, drwy feithrin cenedl amlieithog a grymuso dysgwyr â’r sgiliau diwylliannol ac ieithyddol angenrheidiol i lwyddo mewn amgylchedd byd-eang.

*Amcanion y Prosiect*

1.6 Mae’r prosiect Mentora ITM am gyflawni ystod o amcanion, gyda’r nod wella dealltwriaeth am ac adfywio brwdfrydedd yn rôl ieithoedd rhyngwladol o fewn system addysg Cymru. Yn benodol, mae'r prosiect yn ceisio:

- **Cynyddu’r cymhelliant a’r bwriad i astudio ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU ymysg y dysgwyr a gafodd eu mentora:** Drwy ennyn diddordeb y dysgwyr mewn sesiynau mentora dyfeisgar cyn dewis eu pynciau TGAU, nod y prosiect yw ysbrydoli mwy o ddysgwyr i ddewis ieithoedd rhyngwladol.
- **Gwella agweddau a chymhellion y dysgwyr tuag at ddysgu ieithoedd:** Mae'r prosiect yn ceisio newid safbwyntiau drwy ddangos bod ieithoedd rhyngwladol yn bynciau hygyrch, difyr, a gwerthfawr ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol.

[2] Yn benodol, "ehangu dysgu ieithoedd tramor modern yn ein hysgolion." [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad [HTML] | GOV. CYMRU]

- **Meithrin hunaniaeth amlieithog:** Mae'r prosiect yn annog y dysgwyr i weld eu hunain fel dinasyddion byd-eang sy'n gallu ymgysylltu â llawer o ieithoedd a diwylliannau.
- **Hwyluso integreiddio trawsgwricwlaidd:** Gan gydnabod bod pynciau o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn gorgyffwrdd, nod y prosiect yw cysylltu ieithoedd rhyngwladol â meysydd eraill i greu profiad dysgu mwy cyfannol ac integredig.

1.7 Mae'r prosiect Mentora ITM yn ymateb i'r anghenion cymdeithasol ac economaidd canlynol yng Nghymru.

*Anghenion Cymdeithasol ac Addysgol:*

1.8 Mae'r gostyngiad yn nifer y dysgwyr ysgol uwchradd sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru wedi creu galw brys am ymyriadau i adfywio diddordeb plant mewn dysgu ieithoedd. Mae'r prosiect yn ymateb i'r her hon drwy wella cymhelliant dysgwyr a meithrin agwedd fwy cadarnhaol tuag at ieithoedd rhyngwladol.

*Angen Economaidd:*

1.9 Mewn economi sy'n mynd yn fwy byd-eang, mae galw cynyddol am sgiliau amlieithog i wneud Cymru a'i gweithlu'n fwy cystadleuol ar lefel ryngwladol. Trwy roi sgiliau iaith gwerthfawr i ddysgwyr, mae'r prosiect yn helpu i feithrin persbectif byd-eang ac ehangu eu cyfleoedd gyrfa.

*Aliniad Polisi*

1.10 Mae'r prosiect Mentora ITM wedi'i gynllunio i ffitio'n dda mewn cyd-destun polisi sy'n newid yn gyson yng Nghymru. Dyma'r prif ffactorau polisi a nodwyd yn ystod y gwerthusiad:

**Tabl 1.1: Prosiect Mentora ITM – Aliniad Polisi**

| Polisi | Disgrifiad | Aliniad â'r prosiect Mentora ITM |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026[3] | Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021 yn amlinellu eu deg amcan llesiant, ynghyd ag ymrwymiadau cyfatebol ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mai 2026. | Mae'r prosiect yn nodi ei ymrwymiad i 'ehangu addysgu ieithoedd tramor modern yn ein hysgolion'. |
| Cwricwlwm i Gymru 2008[4] | Roedd Cwricwlwm i Gymru 2008 yn amlinellu gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu yn ysgolion Cymru. | Mae canllawiau'r cwricwlwm ar Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn nodi 'dylai pob dysgwr gael y cyfle i ddysgu o leiaf un iaith ryngwladol yn yr ysgol'. |
| Cwricwlwm i Gymru 2022[5] | Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn adeiladu ar y cwricwlwm blaenorol drwy gynnig fframwaith newydd ar gyfer gofynion addysgu Llywodraeth Cymru, o dan chwe maes dysgu a phrofiad (MDaPh). | Mae Mentora ITM yn cefnogi datblygiad ieithoedd rhyngwladol o dan y maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae Mentora ITM hefyd yn annog dysgu trawsgwricwlaidd drwy integreiddio’r dysgu â phynciau eraill, nad ydynt yn ieithoedd. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)[6] | Mae'r ddeddf hon yn ymdrechu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n annog cyrff | Mae Mentora ITM yn helpu i gyflawni pedwar o'r saith nod llesiant: |

[3] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/project-for-government-update-december-2021.pdf
[4] https://www.gov.wales/current-school-curriculum-guide
[5] https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/
[6] https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/

| | | |
|---|---|---|
| | cyhoeddus i feddwl a gweithredu yn y tymor hir ac er budd pob cymuned, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn ymgorffori saith nod llesiant yn y gyfraith, a ddylai lywio gwaith y llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus. Ymysg yr amcanion hyn mae:<br>Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang | Cymru lewyrchus: Mae Mentora ITM yn rhoi cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol.<br>Cymru o gymunedau cydlynus: Mae Mentora ITM yn meithrin dealltwriaeth rhwng gwahanol ddiwylliannau, a'u hannog i werthfawrogi ei gilydd.<br>Cymru â diwylliant bywiog: Mae Mentora ITM yn hybu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill drwy ddysgu ieithoedd.<br>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang: Mae Mentora ITM yn hyrwyddo addysg amlieithog sy'n annog persbectif byd-eang a meddwl agored ymysg dysgwyr Cymru. |

**Y Strategaeth Dyfodol Byd-eang**

1.11 Cynllun Llywodraeth Cymru yw'r Strategaeth Dyfodol Byd-eang i gynyddu'r niferoedd sy'n dewis ieithoedd rhyngwladol a'u hyrwyddo yng Nghymru er mwyn dod yn "genedl wirioneddol amlieithog", a helpu pob dysgwr i ddod yn ddinesydd byd-eang. Cafodd y cynllun

Dyfodol Byd-eang ei lansio yn 2015. Mae ei gynllun strategol cyfredol yn para hyd at 2025.

1.12 Nod y strategaeth yw:

- helpu i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol mewn modd ystyrlon yng Nghymru
- rhoi’r sgiliau, y wybodaeth a'r profiadau i'n hathrawon i gynllunio a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol
- herio'r camdybiaethau am ddysgu ieithoedd.

1.13 Nid yw’r cynllun strategol cyfredol yn cynnwys y nod penodol o gynyddu’r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU a Safon Uwch, ac mewn addysg uwch. Credir bod yr amcanion newydd yn cyd-fynd yn well â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cynnig dull mwy cyfannol o addysgu ieithoedd ar lefel gynradd ac uwchradd fel ei gilydd[7].

*Y Cyd-destun ITM yng Nghymru*

1.14 Nod y prosiect Mentora ITM oedd mynd i'r afael â dirywiad sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n astudio ITM yng Nghymru; rhwng 2002 a 2015, gostyngodd nifer y myfyrwyr ieithoedd modern TGAU 44% yng Nghymru, a rhwng 2005 a 2014, hanerodd nifer y myfyrwyr Safon Uwch Ieithoedd Modern[8]. Gwelwyd y patrwm hwn yn fwyaf amlwg ymysg ysgolion mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol.[9]

1.15 Bu’r prosiect Mentora ITM yn rhedeg ochr yn ochr â datblygiad y Cwricwlwm i Gymru newydd, a gafodd ei lansio yn 2022[10]. Mae'r cwricwlwm hwn yn hyrwyddo dull amlieithog o ddysgu, gan symud

[7] Gwerthusiad o’r cynllun Dyfodol Byd-eang: cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru 2020 i 2022
[8] Gorrara, Claire (2018) *Speaking from Wales: building a modern languages community in an era of Brexit.* Yn: Kelly, M.(gol.) Language after Brexit. Palgrave Macmillan, Cham. https://doi.org/10.1007/978-3-319-65169-9_13
[9] *Ibid*
[10] https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/

oddi wrth ffocws hanesyddol y sector ar fodelau addysgu un iaith yn unig. Mae'r newid hwn yn cynnig her, gan nad yw’r sector wedi arfer gweithredu o fewn fframwaith addysgol amlieithog. Mae'r prosiect Mentora ITM yn mynd ati i gefnogi'r trawsnewid hwn, drwy helpu i integreiddio amlieithrwydd yn ymarferol. Yn ogystal, wrth i’r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, cafodd dadl ei sbarduno am sgiliau iaith ac addysg ryngddiwylliannol yng Nghymru i sicrhau bod busnesau Cymru yn barod ar gyfer gweithio'n rhyngwladol[11].

**Cefndir y Gwerthusiad**

1.16 Comisiynodd y tîm Mentora ITM ym Mhrifysgol Caerdydd Miller Research i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r prosiect Mentora ITM i ddeall effaith y prosiect a darparu sail ar gyfer datblygu’r prosiect Mentora ITM yn y dyfodol. Nod y gwerthusiad yw pennu effaith hirdymor y prosiect a gwneud argymhellion am y ffordd orau o gefnogi'r sector ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru newydd.

1.17 Gwerthusiadau blaenorol o'r prosiect Mentora ITM:

- Gwerthusiad o’r Prosiect Mentora ITM 2015-2017, gan Alcantara Communications
- Gwerthusiad o’r Prosiect Mentora ITM 2018-2019, gan Alcantara Communications
- Gwerthusiad o Brosiect Ieithoedd Digidol Mentora ITM 2018, gan Alcantara Communications
- Gwerthusiad o'r Prosiect Mentora ITM 2015-2020, gan Ondata Research
- Astudiaethau Achos Ysgolion y Prosiect Mentora ITM 2022, gan Ondata Research

[11] Gorrara, Claire (2018) *Speaking from Wales: building a modern languages community in an era of Brexit.* Yn: Kelly, M.(gol.) Language after Brexit. Palgrave Macmillan, Cham. https://doi.org/10.1007/978-3-319-65169-9_13

1.18 Roedd prif ganfyddiadau'r gwerthusiadau blaenorol yn cynnwys:

- Niferoedd uwch yn astudio ITM ymysg dysgwyr a gafodd eu mentora o gymharu â'r ffigurau gwaelodlin a chenedlaethol, o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect Mentora ITM
- Y prosiect yn cynnig llawer o fanteision i ddysgwyr, gan gynnwys mwy o hyder, profiadau newydd a hwb o ran uchelgais a chymhelliant gyrfa
- Y prosiect yn cynnig llawer o fanteision i fentoriaid, gan gynnwys sgiliau gwell ac effeithiau positif ar eu gyrfa yn y dyfodol
- Cynyddu proffil ITM ymysg uwch-reolwyr ysgolion, o ganlyniad i'r prosiect Mentora ITM.

*Amcanion Gwerthuso a Chwestiynau Ymchwil*

1.19 Tri phrif amcan gwerthusiad y prosiect Mentora ITM oedd: asesu deilliannau ac effeithiau'r prosiect, ystyried beth allai fod wedi digwydd yn absenoldeb y prosiect, a darparu argymhellion a gwersi ar gyfer llywio fersiynau o'r prosiect yn y dyfodol yn ogystal â pholisïau Llywodraeth Cymru.

1.20 I arwain y broses werthuso, cafodd cyfres o gwestiynau ymchwil allweddol eu creu i sicrhau bod darpariaeth, cyflawniadau, ac oblygiadau ehangach y prosiect yn cael eu hasesu'n llawn. Mae'r cwestiynau hyn yn cynnwys:

1. Beth yw'r angen am y Prosiect Mentora ITM?
2. Beth mae'r Prosiect Mentora ITM yn ceisio ei gyflawni?

- Pa adnoddau mae'r Prosiect Mentora ITM yn eu buddsoddi er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?
- Beth mae'r Prosiect Mentora ITM yn ei wneud â'r buddsoddiadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?

3. Beth sy'n cael ei gynhyrchu gan weithgareddau'r prosiect Mentora ITM?
4. Beth yw canlyniadau tymor byr a chanolig yr allbwn yma?

5. Beth yw canlyniadau tymor hir yr allbwn yma?

1.21 Trwy geisio ateb y cwestiynau hyn, mae'r gwerthusiad yn darparu dadansoddiad seiliedig ar dystiolaeth o waith y prosiect Mentora ITM, yr heriau sy’n ei wynebu a’r cyfleoedd ar gyfer ei datblygu yn y dyfodol.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.22 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae adran 2 yn amlinellu methodoleg y gwerthusiad.
- Mae Adran 3 yn trafod canfyddiadau'r gwerthusiad.
- Mae Adran 4 yn canolbwyntio ar y prif gasgliadau.
- Mae Adran 5 yn rhoi argymhellion allweddol ar sail tystiolaeth ymchwil.

## 2. Methodoleg y Gwerthusiad

**Trosolwg o'r Dull Gwerthuso**

2.1 Dechreuodd y gwerthusiad ag adolygiad cynhwysfawr o'r dogfennau a'r ffynonellau data allweddol, gan gynnwys adroddiadau gwerthuso blaenorol, dogfennau strategaeth, deunyddiau hyfforddi mentoriaid, a chynlluniau monitro a gwerthuso. Cafodd data meintiol, fel arolygon gwaelodlin dysgwyr, ceisiadau mentoriaid, ac arolygon ymadael athrawon a mentoriaid, eu dadansoddi i nodi tueddiadau a mesur effeithiau'r prosiect ar ddysgwyr, mentoriaid ac ysgolion.

*Fframwaith dadansoddol (Y Ddamcaniaeth Newid a'r Dull Gwrthffeithiol)*

2.2 Fel rhan o'r broses werthuso, cafodd Model Rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid ei ddatblygu i ddarparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer deall sut a pham mae'r Prosiect Mentora ITM yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd. Roedd y Ddamcaniaeth Newid yn esbonio sut roedd disgwyl i'r newid ddigwydd, gan fapio gweithgareddau'r prosiect i'w nodau tymor byr, canolig a hir. Drwy greu darlun fel hyn, roedd modd ystyried pob elfen o'r prosiect o fewn ei gyd-destun ehangach a nodi'r rhag-amodau, rhagdybiaethau, a ffactorau allanol sy'n angenrheidiol i lwyddo.

2.3 Bu'r Ddamcaniaeth Newid yn hanfodol i'r gwerthusiad, gan gynnig cipolwg ar y deilliannau a'r effeithiau a fwriadwyd ar gyfer y prosiect. Fe wnaeth y Ddamcaniaeth Newid ein helpu i egluro'r berthynas rhwng mewnbynnau (hyfforddi mentoriaid a datblygu adnoddau), gweithgareddau (gweithdai a sesiynau mentora), a deilliannau disgwyliedig (gwella agweddau'r dysgwyr, mwy o ddysgwyr yn astudio ITM, gwella datblygiad proffesiynol y mentoriaid). Trwy hyn, roeddem yn gallu fframio a phrofi ein rhagdybiaethau wrth gynnal gwaith maes.

2.4 Yn sail i'r Ddamcaniaeth, roedd dull gweithredu gwrthffeithiol. Nod y dull hwn oedd ceisio asesu'r hyn fyddai wedi digwydd heb y Prosiect Mentora ITM. Drwy ddefnyddio data ansoddol gan y rhanddeiliaid,

roedd y gwerthusiad yn mynd ati i nodi cyfraniad y prosiect a'i rôl wrth fynd i'r afael â'r heriau yn y maes dysgu ieithoedd yng Nghymru.

**Gwaith maes**

2.5 Gan adeiladu ar sail data meintiol eilaidd yn bennaf, defnyddiodd y gwerthusiad ddull ansoddol o fynd ati i gasglu adborth manwl gan y rhanddeiliaid. Ymysg y rhanddeiliaid roedd y timau darparu, athrawon, mentoriaid, dysgwyr, staff prifysgol, ac arweinwyr consortia addysg. I wneud hyn, cynhaliwyd gwaith maes wedi'i dargedu, fel cyfweliadau strwythuredig, gweithdai, a sesiynau adborth dan arweiniad y dysgwyr.

2.6 At ei gilydd, roedd y gwaith maes yn cynnwys:

- Gweithdy â'r tîm darparu
- Dau weithdy â staff y brifysgol
- Un gweithdy â chyn-fentoriaid
- Pedwar cyfweliad athro
- Cyfweld â thri mentor presennol
- Cyfweld â thri cyn-fentor
- Cyfweliad ag arweinydd academaidd y prosiect
- Un cyfweliad grŵp â'r consortia addysg
- Dau weithdy dan arweiniad dysgwyr

**Dull Gwerthuso: Prif Gryfderau a Chyfyngiadau**

*Cyflwr Dysgu ITM yn y Deyrnas Unedig*

2.7 Mae cysylltiad cynhenid rhwng yr angen i gael y prosiect Mentora ITM a'r dirywiad cyffredinol yn nifer y dysgwyr ieithoedd tramor ledled y DU. Mae'r duedd systemig hon yn creu problemau wrth werthuso'r prosiect gan ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng cyfraniad y prosiect (cadarnhaol) a'r ffactorau ehangach (negyddol) sy'n effeithio

ar y niferoedd sy'n astudio ITM yn genedlaethol. Efallai fod y prosiect yn hynod effeithiol, ond serch hynny rhaid edrych ar ei effaith yng nghyd-destun y dirywiad cenedlaethol hwn, lle mae ei rôl wedi newid o geisio troi'r duedd i oedi neu arafu'r duedd. Mae hyn yn cymhlethu'r asesiad gwrthffeithiol. Gallai'r data mynediad a chyrhaeddiad TGAU barhau i ddangos tuedd am i lawr yn ystod oes y prosiect o ganlyniad i heriau systemig sydd y tu hwnt i reolaeth y prosiect.

2.8 Fodd bynnag, mae'r set ddata gynhwysfawr a gasglwyd - gan gynnwys data ansoddol a data arolwg tymor hir - yn cryfhau'r dadansoddiad gwrthffeithiol. Mae'r sylfaen dystiolaeth gref hon yn cefnogi'r honiadau am effaith y prosiect, gan gynnig fframwaith dibynadwy ar gyfer asesu ei ychwanegedd a'i briodoldeb. Mae'r dull gwrthffeithiol yma'n caniatáu i'r gwerthusiad ddamcaniaethu ynghylch beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y prosiect. Mae'r gwerthusiad yn nodi deilliannau na fyddai wedi digwydd heb y prosiect mae'n debyg: cynnydd yn hyder y dysgwyr, newid agweddau at ITM, ac ehangu dyheadau gyrfa'r mentoriaid a'r dysgwyr. Mae'r dull cyffredinol hwn yn tynnu sylw at gyfraniad unigryw'r prosiect, hyd yn oed yng nghyd-destun heriau systemig ehangach.

*Dull Tymor Hir ac Argaeledd Data Gwaelodlin*

2.9 Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg am gyfnod cymharol hir, ond oherwydd diffyg data gwaelodlin ar ddeilliannau 'meddalach' cyn i'r prosiect gychwyn – fel agweddau at ddysgu ieithoedd – mae'n anodd mesur faint o newid sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r Prosiect Mentora ITM. Er bod yr arolygon a'r ymchwil a wnaed ar gyfer y gwerthusiad hwn yn dangos newidiadau cadarnhaol yn agweddau'r dysgwyr a hyder y mentoriaid, mae mesur effaith y prosiect ar agweddau at ddysgu ieithoedd ledled Cymru yn fwy o her heb gael meincnodau blaenorol i'w cymharu â nhw.

2.10 Serch hynny, mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar set ddata gynhwysfawr a manwl a gasglwyd yn ystod oes y prosiect. Mae'r set

ddata hon yn gymysgedd o ganfyddiadau ansoddol a meintiol (arolygon, adborth, a gwaith maes) sy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer dadansoddi. At hynny, mae'r defnydd o ddata tymor hir wedi ein galluogi i nodi tueddiadau a newidiadau sy'n parhau dros amser, gan roi dealltwriaeth ddyfnach i ni o effaith y prosiect y tu hwnt i ganfyddiadau tymor byr. Mae'r dull cynhwysfawr hwn yn gwneud canfyddiadau'r gwerthusiad yn fwy dibynadwy a threiddgar.

*Cynrychiolaeth Sampl*

2.11 Roedd y gwerthusiad yn dibynnu ar fewnbwn gan y mentoriaid, y dysgwyr a'r ysgolion, gan wneud ymdrech i gasglu amrywiaeth o safbwyntiau. Er enghraifft, roedd yr ysgolion yn ddienw ac fe'u dewiswyd ar sail nodweddion allweddol fel cyfrwng iaith, lleoliad daearyddol, a'r cyfnod y buon nhw'n rhan o'r prosiect Mentora ITM. Nod y dull hwn oedd cofnodi trawstoriad cynrychioliadol o brofiadau a safbwyntiau.

2.12 Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r diffyg cymhellion i gymryd rhan olygu mai'r rhai oedd â mwy o ddiddordeb neu fwy o amser i ymgysylltu â'r prosiect oedd wedi cymryd rhan ynddo.

2.13 Ar y cyfan, roedd y dull gofalus a phwyllog o ddewis sampl yn ceisio lleihau unrhyw ragfarnau posibl, gan gydnabod anfanteision cynhenid ymgysylltu gwirfoddol, problem sy'n effeithio ar bob gwerthusiad.

*Cydbwysedd Ansoddol a Meintiol*

2.14 Mae'r gwerthusiad yn dibynnu'n helaeth ar ddata ansoddol gan fentoriaid, dysgwyr, athrawon a rhanddeiliaid, gan gofnodi'n fanwl sut effaith gafodd y prosiect ar y cyfranogwyr. Er bod data ansoddol o'r fath yn rhoi dealltwriaeth eang a chyd-destunol i ni, nid yw'n gallu pennu achosion pendant na nodi tueddiadau meintiol.

2.15 I oresgyn y broblem hon, mae'r gwerthusiad hefyd yn defnyddio data meintiol a gasglwyd gan dîm y prosiect Mentora ITM. Mae defnyddio

cymysgedd o ddulliau fel hyn yn rhoi darlun mwy cyflawn a chywir i ni o effaith y prosiect. Fodd bynnag, dim ond data meintiol ar gyfer ysgolion sy'n cymryd rhan sydd ar gael. Mae'r diffyg mynediad at ddata cymharol ar gyfer ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan yn cyfyngu ar ein gallu i wneud cymariaethau uniongyrchol ar lefel genedlaethol. Er hyn, mae defnyddio cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol yn cryfhau'r gwerthusiad trwy driongli'r canfyddiadau a chynnig dealltwriaeth eang a dwfn.

**Rhagdybiaethau'r Dull Gwerthuso**

2.16 Wrth gynnal y gwerthusiad, mae nifer o ragdybiaethau wedi cael eu gwneud, yn bennaf ynghylch pa mor ddibynadwy yw'r data sydd ar gael.

*Argaeledd Data Eilaidd*

2.17 Wrth ddefnyddio data eilaidd yn y gwerthusiad, rydym yn cymryd bod yr holl ddata wedi'i gasglu'n briodol, ei lanhau'n drylwyr, ac nad oes unrhyw wallau defnyddwyr. Caiff y rhagdybiaeth hon ei hategu gan y ffordd glir mae'r data wedi cael ei gyflwyno a'r ffordd mae Prifysgol Caerdydd wedi cadw at weithdrefnau moesegol a safonau rheoli data. At hynny, mae cyhoeddi data o'r prosiect Mentora ITM yn ychwanegu at ei hygrededd. Mae'n bwysig nodi bod Prifysgol Caerdydd wedi ymdrechu i wella eu dulliau casglu data dros amser, ac felly mae rhai cwestiynau wedi newid ychydig neu wedi cael eu dileu. Am y rheswm hwn, daw'r data yn yr adroddiad hwn o amrywiaeth o ddyddiadau a blynyddoedd.

*Ymgysylltu â Rhanddeiliaid*

2.18 Wrth gyfweld â chyfranogwyr a rhanddeiliaid, rydym yn rhagdybio bod y sgwrs yn onest ac yn gynrychioliadol o brofiadau pobl. Rydym yn tybio hefyd y bydd y rhai sy'n cael eu cyfweld yn ymddiried yn yr

ymchwilwyr i adrodd eu profiadau'n llawn, ac yn cofio pob elfen o'u profiad yn gywir.

*Dilysrwydd y Dangosyddion*

2.19 Defnyddiwyd nifer o ddangosyddion a metrigau i fesur llwyddiant, gan adlewyrchu'r deilliannau a fwriadwyd. Er i ni drafod beth yw 'llwyddiant' i'r prosiect gyda thîm y prosiect Mentora ITM, rydym yn cymryd bod y metrigau a ddewiswyd gan y tîm gwerthuso (h.y. gwell deilliannau i fentoriaid, bwriad dysgwyr i astudio ITM ar lefel TGAU a Safon Uwch, ac ati) yn gywir. Yn ogystal, rydym yn cymryd bod yr offer a'r dulliau casglu data mwyaf dibynadwy a dilys ar gael.

# 3. Canfyddiadau

**Safbwyntiau Athrawon a Dysgwyr**

*Rôl a Chyfranogiad Athrawon:*

3.1 Ym mhob blwyddyn o'r prosiect ITM, mae tîm y prosiect wedi rhoi arolwg gwaelodlin dysgwyr i'r athrawon sy'n cymryd rhan, i helpu'r athrawon - a'r tîm - i ddeall pa mor debygol yw gwahanol ddysgwyr o ddewis astudio iaith dramor fodern ar lefel TGAU. Defnyddiwyd y wybodaeth hon (ynghyd â gwybodaeth a dealltwriaeth yr athrawon eu hunain am eu dysgwyr) i ddewis dysgwyr i gymryd rhan yn y prosiect mentora (gan ganolbwyntio fel arfer ar ddysgwyr oedd yn ansicr ynghylch dewis TGAU ITM). Roedd gan yr athrawon farn gadarnhaol am y broses hon.

3.2 Roedd gan yr athrawon ddealltwriaeth glir o'u rôl wrth gefnogi'r mentoriaid, gan gynnwys cyfathrebu â'r mentor cyn y sesiynau, a rhoi cefnogaeth barhaus i'r mentoriaid a'r dysgwyr drwy gydol y prosiect.

3.3 Nodwyd bod rhai athrawon yn fwy rhagweithiol na'i gilydd wrth gefnogi mentoriaid. Mewn un achos, soniodd athro am sgwrsio dros y ffôn â'r mentor ymlaen llaw, rhoi taith o amgylch yr ysgol iddynt, ac esbonio prosesau a gweithdrefnau'r ysgol. Roedd hyn yn cyferbynnu â'r sgyrsiau e-bost syml roedd y rhan fwyaf o'r athrawon wedi'u cael â'r mentoriaid, fel yr adroddwyd i'r gwerthuswyr. Soniodd rhai athrawon bod sgyrsiau e-bost, arolygon ac elfennau gweinyddol eraill o'r prosiect yn gallu cymryd llawer o'u hamser sydd eisoes yn brin. Soniodd eraill nad oeddent yn ymwybodol y gallai eu rôl gynnwys cefnogaeth fel teithiau ysgol ac ati.

*Rhesymau dros gymryd rhan*

3.4 Roedd y rhan fwyaf o athrawon ac ysgolion yn teimlo cymhelliant i gymryd rhan yn y prosiect o ganlyniad i'r niferoedd isel sy'n astudio ITM yn eu hysgolion. Cyfeiriwyd at yr angen i godi proffil ieithoedd a

chodi ymwybyddiaeth am eu gwerth. Roedd yr athrawon am ddod â dylanwad allanol (h.y. mentor ITM) i mewn i'r ysgol, er mwyn dangos y sgiliau a'r cyfleoedd posibl y gall dysgu ieithoedd eu creu.

3.5 Yn ôl rhai athrawon, dim ond rhan fach o ymdrechion ehangach i hyrwyddo ieithoedd mewn ysgolion oedd y prosiect. Dywedon nhw eu bod yn credu y dylai'r mentora fod yn rhan o becyn ehangach o ymdrechion i godi nifer y dysgwyr sy'n astudio iaith dramor fodern ar lefel TGAU neu Safon Uwch.

3.6 Y prif gymhelliant i gymryd rhan yn y prosiect oedd hyrwyddo ieithoedd ac annog mwy o ddysgwyr i astudio cymwysterau ITM. Serch hynny, dywedodd athrawon hefyd fod y mentora wedi galluogi dysgwyr a fyddai efallai'n dewis *peidio* ag astudio iaith ar lefel TGAU i fwynhau'r tair blynedd roeddent wedi eu treulio yn dysgu ITM. Roedden nhw hefyd yn cydnabod eu bod wedi ennill sgiliau trosglwyddadwy wrth ddysgu. Dywedodd un athro o ysgol sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect ers saith mlynedd:

> "... roedd rhan ohono hefyd ar gyfer y myfyrwyr sydd ddim yn dewis ieithoedd fel pynciau TGAU, a gwneud yn siŵr eu bod yn gwerthfawrogi'r tair blynedd o ddysgu iaith a gweld eu bod wedi cael sgiliau trosglwyddadwy".


3.7 Nododd athrawon eraill werth y prosiect wrth ymgysylltu â dysgwyr na fyddent fel arfer yn cael cyfleoedd o'r fath. Yn ôl un athro o ysgol cyfrwng Saesneg sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect ers tair blynedd:

> "Be' dw i'n hoffi am y prosiect yma ydy ei fod yn chwilio am y dysgwyr yn y canol... mae'r prosiect yma'n canolbwyntio ar y disgyblion canol y ffordd hynny – myfyrwyr sydd efallai heb gael yr un cyfleoedd. Efallai nad ydyn nhw wedi cael y profiad o fynd dramor neu gwrdd â rhywun sy'n siarad iaith wahanol, er enghraifft".

*Agweddau Tuag at Ieithoedd Tramor Modern (ITM)*

3.8 Nododd y dysgwyr eu hunain fod y gwerth roedden nhw'n ei rhoi ar ITM wedi newid. Nododd llawer eu bod wedi dod i ddeall mwy am fanteision dysgu iaith, fel gwell cyfleoedd gyrfa, gwell dealltwriaeth ddiwylliannol wrth fynd i wledydd eraill, a phrofiad dysgu difyr. Soniodd un dysgwr i'w safbwyntiau newid tuag at wersi ITM: "Dw i'n gweld gwersi ieithoedd fel mwy o hwyl nawr." Mae gallu gwerthfawrogi ieithoedd fel hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolwg, sy'n nodi bod 79% o'r rhai a gafodd eu mentora yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sesiynau mentora wedi cynyddu eu diddordeb mewn ieithoedd y tu allan i'r ysgol.

**Ffigur 3.1: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae'r mentora wedi cynyddu fy niddordeb mewn ieithoedd a diwylliant y tu allan i'r ysgol.'**




Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 2298 (2020-2023)

3.9 Nododd athrawon hefyd newid yn agweddau ac ymddygiadau'r dysgwyr ar ôl cymryd rhan yn y prosiect mentora. Sylwodd athrawon fod barn y dysgwyr am ieithoedd yn fwy cadarnhaol, eu bod yn dangos mwy o ddiddordeb yn yr ystafell ddosbarth, a bod ganddynt fwy o ymwybyddiaeth am ieithoedd fel sgil trosglwyddadwy. Yn ôl un athro, roedd dysgwyr eraill yn yr ysgol wedi dangos diddordeb mewn

cymryd rhan yn y prosiect y tymor nesaf, ar ôl clywed straeon cadarnhaol am y cynllun mentora gan y dysgwyr.

3.10 Er i athrawon nodi ei bod yn anodd gwahanu effaith y cynllun mentora oddi wrth weithgareddau eraill i annog dysgwyr i ddewis ieithoedd, roedd pob un yn teimlo bod y prosiect Mentora ITM wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd at debygolrwydd y dysgwyr i ddewis iaith ryngwladol fel pwnc TGAU. Dywedodd un:


> "Byddwn i wrth fy modd yn parhau i wneud hyn fel rhan o'n cynllun i gynnal ieithoedd a chadw ieithoedd i fynd".

3.11 Mae'r sylwadau gan athrawon yn cyd-fynd â'r data a gasglwyd gan Arolygon Ymadael y Prosiect Mentora ITM, lle roedd 45% o'r dysgwyr a 46% o’r athrawon yn teimlo bod cymryd rhan yn y prosiect wedi cynyddu’r tebygolrwydd o ddewis ITM a hyrwyddo ITM mewn ysgolion. (Ffigurau 3.2 a 3.3).

3.12 Yn ôl un athro:


> "Mae nifer o ddisgyblion wedi dweud yn bendant ei fod yn un o'r rhesymau pam iddyn nhw ddewis y pwnc... Mae'n sicr wedi cael effaith gadarnhaol."

**Ffigur 3.2: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae cael fy mentora wedi fy ngwneud yn fwy tebygol o ddewis iaith dramor fodern fel pwnc TGAU.'**




Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 549 (2020-2021)

**Ffigur 3.3: Canlyniadau Arolwg Ymadael Athrawon y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae cymryd rhan yn y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y nifer sy'n sefyll TGAU eleni.'**




Ffynhonnell: Arolwg athrawon Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 168 (2020-2024)

*Yr Effaith ar Lwybr ac Ymgysylltiad y Dysgwyr:*

3.13 Gwelodd athrawon fod dim ond cael eu dewis hyd yn oed i gymryd rhan yn y prosiect Mentora ITM wedi rhoi 'hwb' i hunanhyder y dysgwyr. Yn ychwanegol, pan oedd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (fel awtistiaeth) neu broblemau ymddygiad yn cymryd rhan yn y sesiynau wedi i'w hanghenion dysgu gael eu hesbonio i'r mentoriaid cyn y sesiynau, nododd athrawon eu bod nhw hefyd wedi cael profiad cadarnhaol.

3.14 Yn ôl un athro sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect ers pedair blynedd, roedd y dysgwyr a fyddai fel arall wedi ennill graddau is wedi dod yn fwy hyderus ac wedi ennill graddau uwch:


> "I ddysgwyr sy'n cael graddau is, maen nhw'n cael y marciau gorau y gallant yn eu papurau siarad. Maen nhw'n gallu cynnal sgwrs, a dyna sy'n bwysig."

3.15 Yn ôl y dysgwyr eu hunain, roedd eu profiadau yn ystod y prosiect mentora wedi gwella eu sgiliau cyfathrebu ac roeddent yn teimlo'n fwy cyfforddus mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, gan fynegi cynnydd o ran hyder a sgiliau rhyngbersonol yn gyffredinol:

> "Mae gen i fwy o sgiliau cymdeithasol nawr, felly mae pethau wedi gwella."
>
> "Dw i'n meddwl bod fy sgiliau cyfathrebu wedi gwella tipyn."

3.16 Roedd hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau'r arolwg sy'n dangos bod 70% o'r dysgwyr yn cytuno bod y mentora wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus yn eu dosbarthiadau ITM (Ffigur 3.4).

**Ffigur 3.4: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae'r mentora wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus yn fy nosbarthiadau ieithoedd tramor modern.'**





Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 2296 (2020-2023)

3.17 Ni chafodd yr athrawon lawer o wybodaeth am ddyheadau'r dysgwyr ar gyfer y dyfodol o ganlyniad i'r cynllun. Er hyn, soniodd rhai eu bod wedi sylwi ar fentoriaid yn siarad â'r dysgwyr am eu profiadau yn y brifysgol ac yn byw dramor. Dywedodd un athro eu bod wedi clywed rhai mentoriaid wedi siarad yn gadarnhaol am y cyfle i weithio ac/neu astudio mewn gwlad arall, ac y bydd hyn yn debygol o gael effaith fuddiol ar ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes athro bob amser yn bresennol yn y sesiynau mentora, gan fod y mentoriaid wedi cael gwiriadau DBS Uwch sy'n caniatáu iddynt weithio â myfyrwyr heb oruchwyliaeth. Hefyd, os oes athro'n bresennol yn y sesiwn, gall amharu ar allu'r mentor i feithrin perthynas â'r dysgwyr, sy'n hanfodol i ddeall cymhellion y dysgwyr i ddysgu ieithoedd a beth sy'n eu hatal. O ganlyniad, lle mae adborth athrawon ar gael, gall olygu bod polisi'r ysgol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fynychu'r sesiynau, neu gallent fod yn sylwadau a gasglwyd gan y dysgwyr/mentoriaid yn syth ar ôl y sesiynau.

3.18 Hefyd, ychydig iawn o sylwadau uniongyrchol gan y dysgwyr oedd ar gael o'r cyfweliad ansoddol ar eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Serch hynny, dywedodd un eu bod bellach am fynd i'r brifysgol o ganlyniad i'r cynllun mentora. Ar ben hynny, mae canlyniadau'r arolwg yn

dangos yn glir bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar uchelgais y dysgwyr, gyda 58% yn cytuno (32%) neu'n cytuno'n gryf (26%) bod y cynllun wedi gwneud iddynt feddwl am fynd i'r brifysgol yn y dyfodol (Ffigur 3.5).


**Ffigur 3.5: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? 'Mae’r mentora wedi gwneud i mi feddwl am fynd i'r brifysgol yn y dyfodol.'**




Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 1748 (2022-2023)

3.19 Roedd ymatebion yr arolwg athrawon hefyd yn gadarnhaol am effaith y prosiect ar ddyheadau gyrfa’r dysgwyr, gyda 64% yn credu ei fod wedi gwella eu dyheadau i fynd i'r brifysgol (Ffigur 3.6).

**Ffigur 3.6: Canlyniadau Arolwg Ymadael Athrawon y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: Pa mor effeithiol ydych chi'n meddwl oedd y prosiect o ran gwella dyheadau disgyblion i fynd i'r brifysgol yn gyffredinol?**





Ffynhonnell: Arolwg athrawon Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 197 (2019-2024)

3.20 Yn gyffredinol, ni wnaeth athrawon nodi unrhyw batrymau o ran demograffeg y dysgwyr oedd yn fwyaf tebygol o ymgysylltu â'r cynllun mentora. Fodd bynnag, nododd un athro fod y dysgwyr mwy academaidd yn tueddu i werthfawrogi ac elwa o'r prosiect fwy:

> "Mae dysgwyr academaidd yn tueddu i gael mwy allan ohono oherwydd bod ganddynt ychydig mwy o ddiddordeb, ychydig mwy o brofiad perthnasol a'u bod tipyn bach yn fwy bydol."


3.21 Mae eu teimlad cadarnhaol yn cyd-fynd â chanlyniadau'r arolwg, lle roedd 84% o ddysgwyr a 96% o athrawon wedi nodi y byddent yn debygol o argymell y prosiect i eraill (Ffigur 3.7 a Ffigur 3.8).

**Ffigur 3.7: Canlyniadau Arolwg Ymadael Dysgwyr y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: Pa mor debygol ydych chi o argymell y sesiynau mentora i bobl eraill?**




Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 1926 (2021-2023)

**Ffigur 3.8: Canlyniadau Arolwg Ymadael Athrawon y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: Pa mor debygol ydych chi o argymell y sesiynau mentora i bobl eraill?**




Ffynhonnell: Arolwg athrawon Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 200 (2019-2024)

**Safbwyntiau Mentoriaid**

*Datblygu Sgiliau a Phrofiadau:*

3.22 Dywedodd pob un o'r mentoriaid a gymerodd ran mewn cyfweliad fod eu hyder wedi gwella o ganlyniad i'r prosiect mentora, boed hynny drwy gyfathrebu ag athrawon, drwy ddefnyddio eu sgiliau cyflwyno, neu drwy orfod ymateb yn y fan a’r lle wrth weithio â’r dysgwyr:

"Dw i'n meddwl bod sefyll o flaen dosbarth am y tro cyntaf, a’r holl brofiad, yn bendant wedi cynyddu fy hyder. Fy sgiliau siarad cyhoeddus hefyd... Ro’n i wir yn teimlo'n llawer mwy hyderus wedyn." (Mentor)

3.23 Yn ogystal ag ennill hyder wrth gyflwyno a chyfathrebu, nododd y mentoriaid eu bod wedi dod yn fwy hyderus yn gyffredinol (e.e. eu gallu i ddysgu iaith, datrys problemau, ac addasu i sefyllfaoedd yn y dosbarth). Cyfrannodd hyn at eu datblygiad personol a phroffesiynol.


3.24 Roedd nifer o fentoriaid yn gobeithio gweithio ym maes addysgu/gyda phlant yn y dyfodol ac wedi defnyddio’r prosiect mentora fel ffordd o weld a oedd gweithio mewn ysgol yn rhywbeth y byddent eisiau ei wneud. Roedd y prosiect Mentora ITM yn gyfle gwych i weithio mewn ysgol a gweld a oedd y profiad yn debyg i’r hyn oeddent wedi’i ddychmygu, yn enwedig i’r rhai oedd eisiau addysgu ieithoedd rhyngwladol yn y dyfodol.

3.25 Dywedodd rhai eu bod wedi dod o hyd i waith ar ôl cymryd rhan yn y prosiect, a bod hynny, yn rhannol o leiaf, o ganlyniad i'r profiad a'r sgiliau roeddent wedi’u cael fel mentoriaid Iaith a Diwylliant. Roeddent wedi gallu rhoi tystiolaeth o'r sgiliau trosglwyddadwy hyn mewn cyfweliadau swyddi:

"Hyd yn oed os nad ydych eisiau mynd i ddysgu, dw i’n credu ei fod [bod yn fentor] wir yn cynyddu eich hyder ... wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol." (Mentor)

3.26 Gwelwn ragor o dystiolaeth o hyn yn yr arolwg deilliannau mentora a ddangosodd fod 99% o'r mentoriaid yn teimlo bod y prosiect wedi rhoi sgiliau iddynt y gallent eu defnyddio yn y dyfodol (Ffigur 3.9).

**Ffigur 3.9: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad: 'Mae'r prosiect wedi rhoi sgiliau i mi y gallaf eu defnyddio y tu allan i'r prosiect.'**




Ffynhonnell: Arolwg mentoriaid Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 216 (2021-2023)

*Deilliannau ac Effaith*

3.27 Fe wnaeth pob mentor presennol a blaenorol oedd wedi cymryd rhan yn y broses werthuso ddisgrifio eu profiad o ymgysylltu â thîm prosiect Mentora ITM a'r prosiect yn gyffredinol fel un cadarnhaol. Sonion nhw hefyd am effaith gadarnhaol bod yn fentor ar eu haddysg eu hunain a'u dyheadau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol.

3.28 Nid annog mentoriaid i fynd i ddysgu neu ddilyn gyrfa yn y byd addysg yw prif nod y prosiect Mentora ITM. Serch hynny, yn ôl tystiolaeth ymchwil y prosiect cynradd ac uwchradd, mae mentoriaid wedi dangos diddordeb mewn dysgu neu weithio gyda phlant mewn rhyw ffordd yn y dyfodol o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect Mentora ITM, heb iddynt ystyried hynny fel llwybr gyrfa yn flaenorol:


"Dw i'n credu y bydda i'n mynd i ddysgu rywbryd. Dw i'n tiwtora ar hyn o bryd." (Mentor)

"Dw i wastad wedi bod eisiau dysgu – fe wnaeth [bod yn fentor gyda'r Prosiect ITM] atgyfnerthu'r syniad yma." (Mentor)

3.29 Roedd dwy ran o dair (66%) o'r mentoriaid yn cytuno bod y prosiect wedi gwneud iddynt ystyried mynd i ddysgu, gyda dim ond 10% yn anghytuno (Ffigur 3.10).

3.30 Dywedodd un cyn-fentor eu bod wedi mynd ymlaen i fod yn athro, yn dal i ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygon nhw wrth fentora, ac yn dal i ddefnyddio adnoddau'r prosiect Mentora ITM a gawsant fel rhan o'u hyfforddiant mentora. Nododd mentor arall a aeth ymlaen i weithio mewn gwersyll haf eu bod wedi sylwi ar y gwahaniaeth o ran proffesiynoldeb rhyngddyn nhw a chydweithiwr, gan deimlo mai'r hyfforddiant oedden nhw wedi'i gael ar y prosiect Mentora ITM oedd yn gyfrifol am hyn.

**Ffigur 3.10: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad 'Mae'r prosiect wedi gwneud i mi ystyried gyrfa addysgu.'**





Ffynhonnell: Arolwg mentoriaid Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 215 (2021-2023)

3.31 Y sgiliau y gwnaeth mentoriaid eu crybwyll amlaf fel rhai a gafodd eu meithrin drwy fentora oedd cyfathrebu, sgiliau cyflwyno a'r gallu i

weithio mewn ysgol - mae hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau'r arolwg (Ffigur 3.11). Nododd y rhai oedd wedi cysgodi athro gan ddod i ddeall swyddogaethau a gweithdrefnau ysgol (er enghraifft, adrodd am bryderon diogelu neu weithdrefnau iechyd a diogelwch) eu bod yn fwy cyfforddus mewn amgylchedd ysgol nawr ac felly'n teimlo'n fwy hyderus yn eu rôl fel mentor.

**Ffigur 3.11: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: Pa sgiliau cyflogadwyedd wnaeth cymryd rhan yn y prosiect eich helpu chi i'w datblygu?**




Ffynhonnell: Arolwg mentoriaid Mentora ITM (2021-2023)

3.32 Profodd y mentoriaid ddeilliannau ehangach a mwy annisgwyl, gan gynnwys dealltwriaeth well o'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'i hanes (yn enwedig myfyrwyr rhyngwladol mewn prifysgolion yng Nghymru) yn ogystal â'r gallu i ddeall prosesau diogelu mewn rolau eraill. Soniodd un mentor hefyd fod y prosiect wedi gwella ei hyder yn ei sgiliau iaith *ei hun*, a hithau wedi cwestiynu ei gallu yn y gorffennol.

**Cyfathrebu a Chydweithio**


*Effeithiolrwydd y Gwaith Cydlynu:*

3.33 Mae’r tîm ym Mhrifysgol Caerdydd sy’n darparu’r Prosiect Mentora ITM wedi paratoi fframwaith cynhwysfawr ar gyfer cefnogi’r mentoriaid a’r ysgolion. Bydd y mentoriaid yn derbyn sesiynau hyfforddi trylwyr, canllawiau mentora manwl, a thempledi tasgau i ddeffro diddordeb y dysgwyr mewn ieithoedd byd-eang a phrofiadau diwylliannol. Bydd yr ysgolion yn cael arweiniad clir ar sut i gyfuno’r sesiynau mentora yn eu hamserlenni, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â’r cwricwlwm. Nododd yr athrawon eu bod yn gwerthfawrogi'r adnoddau a'r hyfforddiant, ynghyd â hyblygrwydd tîm y prosiect. Disgrifiodd un athro'r cynllun Mentora ITM fel "prosiect anhepgor".

*Cynefino a Chymorth i Fentoriaid:*

3.34 Mae hyfforddiant cynefino’r myfyrwyr yn dechrau gyda chwrs hyfforddi dwys sy’n para deuddydd ym Mhrifysgol Caerdydd neu Brifysgol Bangor. Nododd mentoriaid fod hwn wedi bod yn arbennig o werthfawr a difyr. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar feithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, dulliau mentora rhyngweithiol sy’n ennyn diddordeb dysgwyr mewn dysgu seiliedig ar ddiwylliant ac iaith, a hefyd sgiliau diogelu a sgiliau penodol i'r rôl. Roedd y mentoriaid yn hoffi strwythur a chynnwys y sesiynau hyfforddi hyn, gan nodi eu bod yn hollbwysig i’w helpu i baratoi a magu hyder. Nododd mentoriaid hefyd fod y sesiynau wedi eu cyflwyno i offer a deunyddiau ymarferol defnyddiol (e.e. deunyddiau ar sut i gyflwyno ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn sesiynau mentora, gemau ag idiomau a chysyniadau fel y Ddamcaniaeth Mynydd Iâ).

**Ffigur 3.12: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: Pa mor ddefnyddiol oedd y cynlluniau sesiwn a gawsoch chi gan dîm y prosiect?**




Ffynhonnell: Arolwg mentoriaid Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 173 (2022-2023)

3.35 Cyn cael eu gosod mewn ysgolion, derbyniodd y mentoriaid sleidiau PowerPoint, cynlluniau sesiynau, a thasgau rhyngweithiol, fel posau iaith a chwisiau cerddoriaeth. Gallent wedyn addasu'r rhain eu hunain i wella eu sesiynau, ar ôl iddynt ddechrau mentora. Roedd amserlenni'r sesiynau gan athrawon yr ysgol, ynghyd â thaflenni ffeithiau manwl am yr ysgol gan dîm y prosiect, yn helpu i wella hyder y mentoriaid ymhellach a'u parodrwydd i fentora. Yn ôl un athro o ysgol cyfrwng Saesneg sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect Mentora ITM ers saith mlynedd, "Dw i bob amser yn cwrdd â nhw ar-lein yn gyntaf i ddod i'w hadnabod, yn gofyn cwestiynau, ac yn ateb unrhyw bryderon am yr ysgol. Dw i hefyd yn dweud wrthyn nhw pa adnoddau sydd ar gael gennym." Dyma enghraifft o arfer gorau yn cael ei gyflwyno drwy'r prosiect.

3.36 Nododd mentoriaid hyblygrwydd y prosiect hefyd, wrth eu paru ag ysgol agos atynt yn ddaearyddol, er mwyn lleihau'r her logistaidd o gyrraedd yr ysgol. Fel y dywedodd un mentor, "Roedd Glesni mor barod i ddod o hyd i ysgol mewn lleoliad agos iawn ata i, fel nad oedd yn rhaid i mi yrru yno." Cafodd dull y prosiect o baru mentoriaid gydag

ysgolion priodol o ran lleoliad ac amserlen, ynghyd â'r hyblygrwydd i addasu i anghenion y ddwy ochr, ei nodi fel cryfder arbennig.

3.37 Gan adeiladu ar y sylfaen gadarn hon, mynegodd ychydig o fentoriaid awydd am le ac amser pwrpasol ar gyfer cydweithio, rhannu profiadau, a chyfnewid arferion gorau o'u sesiynau[12]. Er bod yr hyfforddiant yn rhoi deunyddiau a thechnegau hanfodol ar gyfer cynnal sesiynau iddynt, gallai cymorth parhaus gan fentoriaid eraill roi mwy o hyder a chymorth ymarferol iddynt. Byddai fforwm o'r fath yn caniatáu i'r mentoriaid hefyd ofyn cwestiynau nad ydynt efallai'n teimlo'n gyfforddus yn eu gofyn i dîm y prosiect. Byddai hefyd yn helpu i feithrin ymdeimlad o gymuned a chysylltiad rhwng y mentoriaid, a thrwy hynny atgyfnerthu eu hangerdd dros addysg ieithoedd.

*Llwyddiannau a Heriau wrth Gydlynu'r Prosiect:*

3.38 Drwy gydweithio'n effeithiol â'r ysgolion, cafodd y sesiynau mentora eu cyfuno'n effeithiol o fewn y diwrnod ysgol, gan ffitio o fewn amserlenni a chadw at ofynion y cwricwlwm. Roedd ysgolion ag adrannau iaith bach (un person weithiau) yn gwerthfawrogi cymorth y prosiect gan ei fod yn llenwi bylchau adnoddau ac yn gallu ffitio sesiynau mentora o fewn amserlen yr ysgol heb amharu llawer ar y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, mynegodd athrawon yr hoffent fwy o wybodaeth am bynciau'r sesiynau er mwyn gallu cyfuno'r sesiynau mentora â'r cwricwlwm. Yn ôl un athro sydd bod yn rhan o'r prosiect o'r cychwyn:

"Byddai'n dda cael mwy o wybodaeth am y pynciau [y sesiynau mentora] fel bod yr athrawon yn gallu plethu hyn i mewn i'w gwersi."

[12] Sylwch fod y prosiect Mentora ITM yn cynnal gweithdai myfyrio bob mis Ionawr lla gall mentoriaid drafod unrhyw broblemau a rhannu technegau mentora â'u Cydlynydd Prosiect. Gall mentoriaid hefyd fynd i ddigwyddiadau cymdeithasu wedi'u trefnu gan fentoriaid eraill drwy gydol y flwyddyn. Mae'n debygol felly nad yw'r lleiafrif o fentoriaid a nododd fod angen amser a lle i gydweithio â mentoriaid eraill yn gwybod am y cyfleoedd hyn.

3.39 Gan gydnabod yr adborth hwn, mae'n bwysig nodi bod tîm y prosiect wedi datblygu’r adnoddau hyn yn benodol ar gyfer mentora a’u bod felly’n wahanol i ddeunyddiau addysgu arferol. Wedi'u cynllunio i ennyn diddordeb y dysgwyr a meithrin perthynas, nid yw’r adnoddau hyn wedi’u creu i gyd-fynd yn union â’r cwricwlwm. Fodd bynnag, gall athrawon lawrlwytho cyfres ar wahân o adnoddau addysgu pwrpasol, wedi’u creu gan dîm y prosiect, oddi ar wefan y prosiect.

3.40 Nododd y rhan fwyaf o athrawon fod y sesiynau mentora’n digwydd yn ystod y gwersi ITM presennol, ond nododd eraill fod y sesiynau wedi digwydd yn ystod gwersi eraill, fel gwersi Cymraeg. Roedd yr athrawon yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd hwn ond yn ei chael yn anodd trefnu’r sesiynau oherwydd problemau ymarferol yn yr ysgol, fel dod o hyd i ystafell briodol, datrys problemau technolegol, neu ddelio â phrinder offer i’w darparu ar-lein.


3.41 Roedd adborth gan athrawon hefyd yn nodi y gall sesiwn awr gyfan weithiau arwain at ddysgwyr yn colli diddordeb neu ddechrau aflonyddu. Awgryma hyn y gall defnyddio fformatau gwahanol neu sesiynau sy’n amrywio o ran hyd helpu’r dysgwyr i ganolbwyntio. Serch hynny, mae'n bwysig nodi bod hyd sesiwn fentora’n amrywio o 30 i 60 munud. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i athrawon a mentoriaid benderfynu ar y cyd pa hyd sydd fwyaf addas iddyn nhw ar sail anghenion y dysgwyr a'r ysgol. Ar y cyfan, roedd y dysgwyr eu hunain wedi ymateb yn gadarnhaol i gynnwys y sesiynau.

3.42 Er bod strwythur cyffredinol y prosiect yn effeithiol, roedd lleiafrif o’r mentoriaid wedi cael trafferth cydlynu'r sesiynau yn ystod cyfnodau prysur eu cyrsiau gradd neu reoli grwpiau mawr heb gymorth ychwanegol. Nododd ychydig o fentoriaid bod angen mwy o wybodaeth arnynt ymlaen llaw am ddiddordebau’r dysgwyr ac amgylchedd yr ysgol er mwyn eu helpu i addasu eu ffordd o weithio’n effeithiol. Ond disgwylir i’r athrawon roi’r wybodaeth hon i’r mentoriaid a thrafod hyn gyda nhw cyn y sesiynau. Disgwylir i’r mentoriaid gysylltu â’r athrawon i drafod hoff bynciau’r dysgwyr ac amgylchedd yr ysgol, gan nad yw hyn yn rhywbeth y gall tîm y prosiect ei wneud.

Awgryma enghreifftiau ymarferol o arfer gorau, fel yr achosion uchod, y gall cyfathrebu'n gynnar yn y broses a darparu gwybodaeth fanwl ddatrys yr heriau hyn yn effeithiol.

3.43 Roedd athrawon a mentoriaid yn canmol y prosiect am ei gyfathrebu effeithiol. Cyfeiriodd llawer at ba mor ymatebol a hawdd cyfathrebu â nhw oedd tîm y prosiect, gan bwysleisio diweddaru rheolaidd a phwyntiau cyswllt hygyrch. Roedd y mentoriaid yn gwerthfawrogi'r cymorth parhaus drwy ffurflenni adborth a sgyrsiau dilynol, gan helpu i wella eu sgiliau mentora a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

**Ffigur 3.13: Canlyniadau Arolwg Ymadael Mentoriaid y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: Pa mor gefnogol oedd eich Cydlynydd Prosiect?**





Ffynhonnell: Arolwg mentoriaid Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 216 (2021-2023)

3.44 Nododd un cyn-fentor oedd wedi bod yn rhan o'r cynllun ers dwy flynedd; "Fe ges i gefnogaeth wych! Yn arbennig y negeseuon e-bost a'r galwadau cyson gan Glesni. Nid dim ond helpu â'r mentora oedd hyn ond hefyd cefais help cyffredinol â'r brifysgol, oedd yn hynod o ddefnyddiol." Roedd ymagwedd gynnes a chefnogol tîm y prosiect yn gysur i'r mentoriaid iau, llai profiadol, ac wedi lleihau eu pryder ar y

cychwyn. Nododd athrawon hefyd pa mor ddibynadwy oedd prosesau diogelu’r tîm ac eglurder eu cyfathrebu.

**Ffigur 3.14: Canlyniadau Arolwg Ymadael Athrawon y Prosiect Mentora ITM i'r cwestiwn: Pa mor gefnogol oedd eich Cydlynydd Prosiect?**




Ffynhonnell: Arolwg athrawon Mentora ITM, nifer yr ymatebwyr = 165 (2021-2024)

3.45 Fodd bynnag, cafwyd rhai awgrymiadau gan athrawon ar sut i wella sesiynau mentora unigol a’r modd y caiff y prosiect ei ddarparu’n gyffredinol, gan gynnwys:

- Cynnig gweithgareddau amgen, fel teithiau i brifysgolion neu sesiynau mwy o faint ar ieithoedd penodol, ar gyfer ystod ehangach o ddysgwyr.[13]
- Blaenoriaethu sesiynau wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl, gan fod athrawon yn teimlo bod y rhain yn aml yn fwy effeithiol i’r dysgwyr. Yn wir, erbyn 2023, roedd y prosiect wedi mynd yn ôl i gynnig sesiynau mentora wyneb yn wyneb yn bennaf, gyda'r

[13]Roedd y prosiect yn arfer cynnig teithiau i brifysgolion cyn COVID-19, ond o 2020 ymlaen, cafodd yr arian ei ailgyfeirio i alluogi’r prosiect i ymgysylltu â mwy o ysgolion. Wrth i'r diddordeb gynyddu, dechreuodd y prosiect flaenoriaethu gweithio gyda mwy o ysgolion yn lle cynnig teithiau i brifysgolion. Yn ogystal, nid yw sesiynau mwy o faint sy'n canolbwyntio ar iaith yn rhan sylfaenol o'r prosiect, ond mae gweithdai ar gael ar gyfer dosbarthiadau cyfan a gall yr ysgolion ddewis cymryd rhan yn y rhain.

mwyafrif helaeth o ysgolion bellach yn derbyn cymorth wyneb yn wyneb.

*Cyfathrebu â’r Dysgwyr am y Prosiect:*

3.46 At ei gilydd, roedd y dysgwyr yn gwerthfawrogi cynnwys y sesiynau mentora, yn enwedig y gweithgareddau hwyliog am fwyd a cherddoriaeth, oedd yn arbennig o ddifyr yn eu barn nhw. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, nododd rhai dysgwyr eu bod yn ansicr beth yn union oedd cefndir, cyd-destun a phwrpas y prosiect Mentora ITM yn y lle cyntaf.

3.47 Yn ôl un dysgwr, wrth gael eu dewis yn y lle cyntaf a'u galw allan o'r ystafell ddosbarth i gymryd rhan, roedden nhw’n meddwl eu bod mewn trwbwl: "Doeddwn i ddim wedi cyffroi oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd. Cafodd fy enw ei alw ac roeddwn i'n meddwl ein bod ni'n mynd i gael row." Mewn cyferbyniad â hyn, nododd un athro eu bod wedi dweud wrth y dysgwyr bod y prosiect Mentora ITM wedi eu "dethol" nhw’n arbennig, gyda’r nod o wneud iddynt deimlo'n arbennig a rhoi hwb i'w hyder.

3.48 Mae'r adborth hwn yn tynnu sylw at fwlch cyfathrebu â’r dysgwyr, a all arwain at ddryswch a chamddealltwriaeth ynghylch nod a phwrpas y cynllun. I fynd i'r afael â hyn, awgrymodd dysgwyr y gellid cynnwys mwy o wybodaeth mewn sleidiau a / neu daflenni i egluro’n union beth yw’r prosiect Mentora ITM a’r rhesymeg y tu ôl iddo. Fe wnaethon nhw hefyd argymell esbonio rôl y mentor ac amcanion y sesiwn yn well. Dywedodd un dysgwr, "Dw i’n credu y gallai hi [y mentor] fod wedi dweud mwy am y prosiect a pham ei bod yn gwneud hyn."

3.49 Mae'r sylwadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi cyflwyniad a chyd-destun cryfach i’r prosiect Mentora ITM i wella dealltwriaeth ac ymgysylltiad y dysgwyr.

**Effeithiau a Welwyd ac Aliniad ag Amcanion Strategol**

*Effeithiau a Welwyd ar y Dysgwyr:*

3.50 Mae'r dystiolaeth yn gyson yn tanlinellu dylanwad cadarnhaol y prosiect Mentora ITM ar agweddau'r dysgwyr a'u hyder i ddysgu ieithoedd. Nododd athrawon sawl gwaith fod y dysgwyr yn dangos mwy o barodrwydd i ymgysylltu ag ieithoedd, gan ddangos mwy o frwdfrydedd yn ystod ac ar ôl y sesiynau mentora. Roedd y mentoriaid yn atgyfnerthu'r arsylwadau hyn, gan sôn am achosion lle gwnaeth dysgwyr swil neu ddysgwyr oedd wedi colli diddordeb gymryd mwy o ran yn y sesiynau wrth iddynt barhau. Yn ôl un mentor, "Erbyn diwedd y sesiynau, roedd hyd yn oed y myfyrwyr tawelach yn gofyn cwestiynau ac yn cyfrannu."

3.51 Pwysleisiodd yr athrawon bod presenoldeb y mentoriaid wedi rhoi cipolwg unigryw i'r dysgwyr ar sut mae sgiliau iaith yn gallu cael eu defnyddio mewn bywyd go iawn, gan sbarduno chwilfrydedd a diddordeb. Fel yr eglurodd un athro, "Sbardunodd hyn drafodaethau am sut beth yw bywyd bob dydd mewn gwahanol wledydd, gan a dangos persbectif gwahanol iddynt."

3.52 Mae sylwadau'r dysgwyr am eu profiadau'n atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn. Dywedodd un dysgwr, "Dw i'n gweld gwersi iaith yn llawer mwy hwyliog nawr oherwydd yr un wers honno a roddodd hi i ni. [Roeddwn i'n hoffi] dysgu am eiriau gwahanol." Daeth gweithgareddau rhyngweithiol a chreadigol, megis dysgu am ddiwylliant bwyd, chwarae gemau seiliedig ar idiomau, ac ymgorffori cerddoriaeth, i'r amlwg fel pethau arbennig o effeithiol ar gyfer ennyn diddordeb y dysgwyr a gwneud dysgu ieithoedd yn rhywbeth perthnasol iddynt. Roedd y gweithgareddau hyn yn galluogi'r dysgwyr i gysylltu ieithoedd â'u profiadau a'u diddordebau eu hunain, gan ddatblygu barn fwy cadarnhaol am ddysgu ieithoedd.

*Deilliannau Annisgwyl Eraill:*

3.53 Thema oedd yn codi dro ar ôl tro i'r dysgwyr hyn oedd bod ganddynt hyder newydd yn eu gallu i ddefnyddio ieithoedd a gwell dealltwriaeth

o fanteision ymarferol sgiliau iaith. Er enghraifft, meddai un dysgwr, "Mae'n well pan fyddwch chi'n mynd ar wyliau oherwydd gallwch chi ddeall y bobl leol ychydig yn well." Ychwanegodd un arall, "Dw i’n gweld ieithoedd fel rhywbeth manteisiol iawn oherwydd galli di gael mwy o gyflog yn dy swydd." Nododd athrawon fod dysgwyr yn aml yn dod yn ôl o’r sesiynau wedi ennill mwy o ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ieithoedd mewn cyd-destun byd-eang. Roedd rhai hyd yn oed yn awyddus i ddysgu am ieithoedd ar wahân i'r rhai traddodiadol, e.e. Corëeg, Eidaleg neu Fandarin.

3.54 I rai dysgwyr, roedd y sesiynau mentora’n cyflwyno'r syniad o ddysgu ieithoedd gydol oes, gan wneud iddynt feddwl o’r newydd am ieithoedd fel sgil i’w dysgu’n annibynnol y tu allan i’w hastudiaethau ffurfiol. Nododd un athro'r newid meddylfryd hwn, gan esbonio fod y mentoriaid yn pwysleisio "nid yw methu ag astudio [iaith] yn yr ysgol yn golygu na alli di astudio iaith yn y brifysgol." Dechreuodd dysgwyr eraill weld sgiliau iaith fel rhai trosglwyddadwy a pherthnasol i’w cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol, fel yn y maes busnes rhyngwladol neu ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â theithio.

3.55 Yn ogystal, mae'r prosiect wedi cael effaith ar ddatblygiad addysgol a phersonol ehangach y dysgwyr. Roedd rhai dysgwyr, yn enwedig rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig, wedi cael budd drwy gael cydnabyddiaeth a hwb i’w hyder wrth gymryd rhan yn y sesiynau mentora. Nododd un athro, "Ni fydd pob un ohonynt yn cael eu perswadio, ond mae'r ffaith eu bod yn cael eu dewis yn rhoi hwb iddynt." I lawer, roedd yr ymdeimlad hwn o gynhwysiant yn eu hannog i ymddiddori mwy yn eu gwersi ysgol ac mewn dysgu yn gyffredinol.

3.56 Y tu hwnt i ddewisiadau academaidd, roedd dylanwad y prosiect yn ymestyn i dwf personol y dysgwyr. Dangosodd llawer o’r dysgwyr fwy o hyder, gwell sgiliau cyfathrebu, a barn fwy cadarnhaol am ddysgu ieithoedd. Fel y crynhodd un athro, "Maen nhw'n dod yn ôl yn llawn brwdfrydedd ac yn llawn cwestiynau."

**Safbwyntiau'r Rhanddeiliaid ar Aliniad Strategol:**

3.57 Pwysleisiodd staff y Brifysgol, consortia addysg a thîm y prosiect Mentora ITM bod y prosiect yn alinio â strategaeth Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at ei nodau strategol. Mae'r prosiect yn hyrwyddo amlieithrwydd, sef un o egwyddorion sylfaenol y strategaeth, yn ogystal â meithrin dinasyddiaeth fyd-eang ymhlith dysgwyr yng Nghymru.

3.58 Mae recriwtio mentoriaid sy'n fyfyrwyr i'r prosiect Mentora ITM wedi dangos bod gwrthdaro'n bodoli rhwng hen strwythurau adrannau iaith y prifysgolion ac anghenion newidiol y prosiect. Yn y gorffennol, roedd y gwaith o arwain y prosiect a recriwtio mentoriaid ar ei gyfer yn digwydd o fewn adrannau ieithoedd modern, gan gyfateb i nodau cychwynnol y prosiect. Fodd bynnag, mae'r recriwtio wedi ehangu'n sylweddol ers hynny i gynnwys myfyrwyr prifysgol o wahanol ddisgyblaethau academaidd, gan adlewyrchu pwysigrwydd sgiliau iaith a chwilfrydedd rhyngddiwylliannol ar draws gwahanol feysydd.

3.59 Pwysleisiodd staff y Brifysgol mai Athro ieithoedd modern sydd fel arfer yn arwain y prosiect, ond bod hyn yn mynd yn llai hyblyg wrth i broffil y rhai sy'n ymgeisio i fod yn fentoriaid newid. Daw llawer o'r mentoriaid o feysydd gwahanol i ITM nawr, fel STEM, y gwyddorau cymdeithasol, a'r celfyddydau. Roedd pwyslais newydd y prosiect ar sgiliau trosglwyddadwy a datblygiad personol yn atyniadol i'r myfyrwyr hyn. Er y newid hwn, dengys adborth gan staff yn y brifysgol sydd wedi gweithio â'r prosiect ITM ers ei sefydlu bod tensiwn o fewn y strwythur traddodiadol. Er bod cael athrawon ieithoedd rhyngwladol i arwain y prosiect yn dal yn hollbwysig oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth, gall parhau â'r strwythur traddodiadol hwn gyfyngu ar gyfleoedd i gydweithio ag adrannau eraill o fewn y brifysgol. Gall ehangu i gydweithio ar draws disgyblaethau ddod â safbwyntiau a sgiliau amrywiol i wella'r broses fentora, gan ategu cryfderau'r ffocws ar ieithoedd rhyngwladol.

3.60 Fodd bynnag, dylid cydnabod bod staff iaith y brifysgol yn wynebu cyfnod heriol sy'n gwneud eu cyfranogiad yn bwysicach byth. Mae'r argyfwng ariannol sy'n effeithio ar addysg uwch wedi rhoi adrannau iaith o dan bwysau sylweddol, gyda thoriadau cyllid yn bygwth eu parhad. Mae staff yn yr adrannau hyn yn awyddus i hybu ITM, ac mae'r prosiect yn helpu i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn astudio ieithoedd.

3.61 Mae gallu'r prosiect i droi at recriwtio mentoriaid o gefndiroedd ar wahân i ITM yn dangos ei hyblygrwydd a'i allu i ymateb i sefyllfa gyfredol y byd addysg a chyflogaeth. Trwy fanteisio ar gyfleoedd rhyngddisgyblaethol a goresgyn cyfyngiadau'r strwythurau traddodiadol, gall y prosiect gadw ei sylfeini hanesyddol gan hefyd fabwysiadu dulliau newydd o recriwtio a darparu mentoriaid. Mae'r gallu hwn i addasu yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer llwyddiant y prosiect, ond hefyd er mwyn cynnal yr amcanion ehangach o hyrwyddo amlieithrwydd a dinasyddiaeth fyd-eang yng Nghymru.

*Cysylltiadau rhwng Addysgu ITM a'r Gymraeg*

3.62 Mae'r prosiect Mentora ITM mewn sefyllfa unigryw i feithrin cysylltiadau rhwng addysg ITM a'r Gymraeg. Nododd rhanddeiliaid fod hunaniaeth ddwyieithog Cymru yn cynnig sylfaen gref ar gyfer hyrwyddo amlieithrwydd ac ehangu'r maes dysgu ieithoedd rhyngwladol. Er enghraifft, roedd rhai mentoriaid yn cydnabod y fantais gynhenid sydd gan blant sy'n siarad Cymraeg wrth ddysgu ieithoedd, gydag un yn sylwi bod "y Gymraeg wedi bod yn help mawr. Mae plant dwyieithog yn gwneud rhai pethau'n awtomatig. Maen nhw'n gwybod beth yw trefn newidiadau iaith, fel gramadeg [gwrywaidd a benywaidd]." Trwy integreiddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol mewn fframwaith cytbwys ac ategol, mae'r prosiect yn cefnogi ethos ehangach y Cwricwlwm i Gymru a'i weledigaeth i ddysgwyr ddod yn "ddinasyddion Cymru a'r byd."

3.63 Yn ogystal, mae cyflwyno ieithoedd rhyngwladol ar y lefel gynradd yn creu cysylltiad hollbwysig. Er bod y rhanddeiliaid wedi nodi diffyg cefnogaeth ar gyfer addysg ITM mewn ysgolion cynradd ar hyn o bryd, gallai fframwaith mentora'r prosiect lenwi'r bwlch hwn, drwy gynnig adnoddau a hyfforddiant i ymarferwyr. Awgrymodd rhai o staff y brifysgol y gallai cysylltu’r prosiect â mentrau Cymraeg ar y lefel cynradd gynyddu ei effaith ymhellach. Yn wir, fe wnaeth tîm y prosiect Mentora ITM dreialu cynllun mentora ysgolion cynradd yn ystod tymor yr Hydref/Gaeaf 2024, wedi’i ariannu’n allanol gan Brifysgol De Cymru (PDC). Yn ogystal, mae gan y prosiect gynllun partner, sef Caru Darllen, sy’n ceisio ysbrydoli dysgwyr ysgol gynradd i fwynhau darllen yn Gymraeg a Saesneg, drwy feithrin cariad at lenyddiaeth ac ehangu eu byd-olwg drwy lens ddarllen. Mae'r cysylltiad hwn ag addysg gynradd yn dangos sefyllfa unigryw’r prosiect Mentora ITM i greu ffrwd o ddysgwyr sy'n gyfarwydd â dysgu mwy nag un iaith ac sy’n frwdfrydig amdanynt.

# 4. Rhwystrau a Heriau

*Cyllid*

4.1 Un broblem fawr a nodwyd – ac a amlygwyd mewn gwerthusiadau blaenorol o'r prosiect Mentora ITM – yw heriau'r cylch ariannu blynyddol. Mae'r ddibyniaeth ar gyllid tymor byr yn creu ansicrwydd sy'n cynnig her i gynaliadwyedd y prosiect ac yn cyfyngu ar ei allu i gynllunio'n strategol ar gyfer y tymor hir. Caiff heriau'r cylchoedd ariannu blynyddol eu trafod bob blwyddyn â Llywodraeth Cymru, sy'n deall eu heffaith. Gan ei bod yn ymwybodol o'r heriau, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi sicrwydd o barhad cyllid cyn gynted ag y bo modd bob blwyddyn. Bu'n bosibl i'r Llywodraeth gynnig mwy o sicrwydd o ran cyllid parhaus, aml-flwyddyn ar gyfer 2022–25. Roedd hwn yn gam cadarnhaol tuag at gael cefnogaeth hirdymor i'r prosiect. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddigonol i ddatrys yr holl heriau mewnol o ran staffio a chynllunio.

4.2 Fel yr awgrymwyd uchod, mae goblygiadau cylchoedd ariannu blynyddol yn rhai pellgyrhaeddol. I staff, gall yr ansicrwydd ynghylch adnewyddu eu cytundebau arwain at ansefydlogrwydd a diffyg parhad, wrth i weithwyr medrus adael eu swydd i gymryd swydd fwy diogel efallai. Mae'r perygl yma o ddiffyg cysondeb staff yn tanseilio gallu'r prosiect i gynnal y wybodaeth a ddatblygwyd dros ddeng mlynedd. Hefyd, gall arwain at ddiweddu ac adnewyddu cytundebau'n rheolaidd. Unwaith eto, mae hyn yn creu problemau o ran staffio ac Adnoddau Dynol. Yn ogystal, bydd tîm y prosiect yn gorfod blaenoriaethu amcanion tymor byr dros dwf strategol tymor hir, gan amharu ar ei botensial i arloesi ac ehangu i wahanol feysydd pwnc.

4.3 Mae'r sefyllfa gyllido ansicr a byrhoedlog yn cyferbynnu ag esblygiad tymor hir cyson y prosiect a'i hanes profedig o lwyddiant dros y ddeng mlynedd ers iddo fod yn weithredol.

*Blociau Opsiynau TGAU*

4.4 Mae strwythur y blociau opsiynau TGAU yn gosod her sylweddol i nod y prosiect Mentora ITM o gynyddu'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol. Bydd ysgolion yn trefnu'r pynciau yn grwpiau opsiynau penodol, lle mae'n rhaid i'r dysgwyr ddewis rhwng gwahanol ddisgyblaethau. Mae'r trefniant hwn yn golygu bod ieithoedd yn aml yn gorfod cystadlu â phynciau poblogaidd eraill, gan leihau nifer y dysgwyr sy'n gallu dewis ieithoedd rhyngwladol, hyd yn oed os oes diddordeb ganddynt.

4.5 Nododd athrawon fod y system hon yn effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr sydd â diddordeb mewn ieithoedd, ond sydd hefyd yn cael eu denu at bynciau eraill yn yr un bloc. Er i'r prosiect lwyddo i feithrin brwdfrydedd dros ieithoedd, mae'r cyfyngiadau strwythurol hyn yn parhau i fod yn rhwystr mawr i drosi'r diddordeb hwn yn benderfyniad i'w dewis fel pynciau TGAU. Er enghraifft, yn ôl un athro, "Rydyn ni'n cynnal pôl gwelltyn ac yn rhagweld cael tua 28 o ddisgyblion, ond pan fydd y blociau opsiynau'n derfynol, fel arfer ryw 16 i 24 fyddwn ni'n eu cael yn y pen draw. Felly, rydyn ni'n bendant yn colli dysgwyr ar hyd y ffordd."

4.6 Mae'r pwysau logistaidd o fewn ysgolion, fel gwrthdaro amserlenni a dim digon o athrawon iaith ar gael, yn ychwanegu at y broblem.

*Cyfyngiadau Darparu Digidol*

4.7 Er bod mentora ar-lein wedi gwneud y prosiect yn fwy hygyrch, fe wnaeth hefyd arwain at heriau newydd sy'n benodol i fentora o bell. Yn aml, roedd gofyn i athrawon adael eu dosbarthiadau'n gynnar er mwyn gosod eu sesiynau ar-lein, gan leihau hyd y sesiynau o awr i ryw 40 munud. Fe wnaeth y prinder amser hwn, ynghyd ag anawsterau technegol fel diffyg ystafelloedd addas neu broblemau i gysylltu â'r we, darfu ar y sesiynau o bryd i'w gilydd.

*Cyfyngiadau Darparu ar y Safle*

4.8 Weithiau, roedd problemau logistaidd yn wynebu'r mentoriaid ar y safle. Er enghraifft, byddai'r mentoriaid cyrraedd yr ysgol weithiau i weld nad oedd digon o adnoddau ar gael, fel gliniaduron, cyfrifiaduron llechen neu ddeunyddiau addysgu, gan ei gwneud yn anodd iddynt gyflawni'r gweithgareddau roeddent wedi'u cynllunio. Yn ogystal, byddai'r ysgolion yn aml yn cael trafferth dod o hyd i leoliadau priodol ar gyfer cynnal y sesiynau mentora, yn enwedig mewn cyfnodau prysur pan nad oedd digon o ystafelloedd rhydd ar gael.

*Darganfod Gwerth Ieithoedd*

4.9 Mae safbwyntiau negyddol ynghylch gwerth ymarferol dysgu ieithoedd yn cyfrannu'n sylweddol at y gwrthwynebiad i ddysgu ieithoedd. Mae camdybiaeth ymhlith rhai rhieni a dysgwyr bod ieithoedd yn llai pwysig neu werthfawr na phynciau eraill fel STEM. Mae'r canfyddiad hwn yn deillio o bwyslais addysgol a chymdeithasol cyffredinol ar y meysydd STEM fel rhai sy'n hanfodol i ragolygon gyrfa. O ganlyniad, mae gwerth amlieithrwydd yn cael ei leihau. Caiff tuedd o'r fath ei atgyfnerthu ymhellach gan ddiffyg ymwybyddiaeth am y manteision ymarferol a diwylliannol y mae sgiliau iaith yn eu cynnig, fel gwella cyflogadwyedd (yn enwedig mewn economi fyd-eang), a gwella dealltwriaeth ar draws a rhwng diwylliannau.

*Hyfforddiant Athrawon Annigonol*

4.10 Mae'n amlwg fod rhai athrawon yn ei chael yn anodd gweithredu ethos amlieithog y Cwricwlwm i Gymru a'r Strategaeth Dyfodol Byd-eang. Heb hyfforddiant digonol, mae'n debyg na fydd gan athrawon yr hyder i ddefnyddio dulliau amlieithog yn eu dosbarth. Fel y nododd un brifysgol, mae'r diffyg cyfleoedd hyfforddi yn atal meddylfryd amlieithog rhag datblygu. Golyga hyn fod llawer o addysgwyr heb gael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer hyrwyddo dysgu ieithoedd.

*Cydbwyso Gofynion y Cwricwlwm â Blaenoriaethau Eraill*

4.11 Bydd athrawon yn aml yn cael y dasg o geisio cydbwyso nifer o ofynion cwricwlwm, a all arwain at lai o bwyslais ar ieithoedd, yn enwedig mewn ysgolion lle nad oes digon o adnoddau gan yr adrannau iaith. Mae cynnwys ieithoedd rhyngwladol yn y Cwricwlwm i Gymru newydd yn wynebu problemau oherwydd blaenoriaethau eraill sy'n gwrthdaro. Mae pryder y bydd staff ysgolion sydd eisoes dan bwysau yn cael eu gorlwytho â gwaith.

*Recriwtio + Capasiti: Mentoriaid sy'n Siarad Cymraeg*

4.12 Mae recriwtio mentoriaid sy'n siarad Cymraeg yn parhau i fod yn her o hyd, yn enwedig mewn ysgolion gwledig neu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r galw am fentoriaid dwyieithog yn uchel yn yr ysgolion hyn ac yn aml nid oes digon ar gael. Mae'r broblem hon yn deillio o ffactorau fel diffyg siaradwyr Cymraeg hyderus a'r ymdeimlad posibl o syrffed ymhlith siaradwyr Cymraeg sydd eisoes yn cymryd rhan mewn mentrau tebyg.

4.13 Mae lefelau hyfedredd hefyd yn chwarae rôl, gan nad yw pob siaradwr Cymraeg yn teimlo'n ddigon hyderus yn eu sgiliau iaith i fod yn fentor trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall y canfyddiad hwn o beidio â bod yn ddigon da atal darpar fentoriaid a fyddai fel arall yn gallu cyfrannu'n dda gyda chymorth ac anogaeth briodol.

4.14 Mae ffactorau daearyddol yn gwaethygu'r broblem ymhellach. Mae ysgolion mewn ardaloedd mwy anghysbell neu ardaloedd heb ddigon o adnoddau'n wynebu anawsterau ychwanegol i sicrhau mentoriaid sy'n siarad Cymraeg oherwydd problemau logistaidd amserlennu a theithio.

# 5. Dadansoddiad Gwrthffeithiol

5.1 Pwrpas cynnal dadansoddiad gwrthffeithiol o'r prosiect Mentora ITM yw ystyried sut fyddai'r sefyllfa heb fodolaeth y prosiect Mentora ITM. Drwy asesu beth fyddai wedi digwydd heb y prosiect Mentora ITM, mae'r dadansoddiad yn tynnu sylw at rôl y prosiect wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau uchod, yn ogystal â'i rôl wrth feithrin cydweithio a datblygu brwdfrydedd dros ddysgu ieithoedd.

*Ychwanegedd yn Erbyn y Senario Gwrthffeithiol*

5.2 Gallwn weld ychwanegedd y prosiect Mentora ITM yn glir yn ei ddeilliannau addysgol a datblygiad personol cadarnhaol na fyddai wedi digwydd, yn ôl pob tebyg, heb y prosiect. Mae hyn yn wir i'r mentoriaid a'r dysgwyr. Er mai'r prif gymhelliant i gymryd rhan yn y prosiect oedd hyrwyddo dysgu ieithoedd a chynyddu'r niferoedd sy'n astudio cymwysterau ITM, mae adborth ansoddol gan athrawon yn awgrymu bod y rhaglen wedi cyfrannu'n fwy eang at brofiadau ac agweddau dysgwyr at ddysgu ieithoedd. Hyd yn oed i'r dysgwyr nad ydynt yn dewis iaith ar lefel TGAU, nododd athrawon fod y mentora wedi eu helpu i werthfawrogi'r profiad o ddysgu iaith a chydnabod eu bod wedi datblygu sgiliau trosglwyddadwy wrth astudio iaith.

5.3 Mae adborth y dysgwyr yn pwysleisio'r ychwanegedd hwn ymhellach. Nododd y dysgwyr eu bod wedi newid eu meddwl am ITM, gan ddweud fod ganddynt fwy o ymwybyddiaeth am y manteision o ddysgu iaith, fel gwell cyfleoedd gyrfa, dealltwriaeth ddiwylliannol, a mwynhad personol. Mae data'r arolwg yn atgyfnerthu'r duedd hon, gyda 79% o'r rhai a gafodd eu mentora rhwng 2020-2023 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y profiad mentora wedi gwneud iddynt ymddiddori mwy mewn ieithoedd y tu allan i'r dosbarth (gweler Ffigur 3.1). Mae canfyddiadau ansoddol a meintiol o'r fath yn awgrymu bod y rhaglen wedi arwain at ddeilliannau sy'n mynd y tu hwnt i ddarpariaeth safonol y cwricwlwm.

5.4 Nododd athrawon hefyd eu bod wedi sylwi ar newidiadau yn ymddygiad ac agweddau’r dysgwyr yn y dosbarth ar ôl cymryd rhan yn y sesiynau mentora. Roedd y dysgwyr yn fwy brwdfrydig, yn dangos mwy o ymwybyddiaeth am ddysgu iaith fel sgil werthfawr, ac yn teimlo wedi’u hysbrydoli gan y mentoriaid oedd wedi rhannu profiadau personol â nhw, fel eu profiad o fywyd prifysgol a theithio. Nododd sawl athro eu bod wedi sylwi ar fwy o ddiddordeb ymhlith y dysgwyr eraill ar ôl iddynt glywed adborth cadarnhaol y rhai a gafodd eu mentora. Dangosodd hyn effaith na fyddai wedi digwydd heb y mentora.

5.5 Er bod y data a gasglwyd yn llai clir ar effeithiau’r prosiect ar ddyheadau’r dysgwyr ar gyfer y dyfodol, mae effaith glir i’w gweld ar ddyheadau’r dysgwyr i fynd i'r brifysgol. Roedd 58% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y cynllun wedi gwneud iddynt ystyried mynd i'r brifysgol yn y dyfodol (gweler Ffigur 3.5).

5.6 Er bod rhai athrawon yn cydnabod ei bod yn anodd gwahanu dylanwad y mentora oddi wrth ddylanwad ymdrechion eraill i hyrwyddo ieithoedd, y consensws oedd bod y prosiect wedi cael dylanwad cadarnhaol ar debygolrwydd y dysgwyr o astudio iaith ar lefel TGAU. Yn unol â'r canfyddiad hwn, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 45% o'r dysgwyr a 46% o’r athrawon yn teimlo bod y prosiect wedi creu mwy o ddiddordeb a bod niferoedd uwch yn dewis ieithoedd (gweler Ffigurau 3.2 a 3.3). Mae sylwadau’r athrawon yn cefnogi hyn, gydag un yn dweud, "Mae nifer o ddisgyblion wedi dweud yn bendant mai dyma un o'r rhesymau pam iddyn nhw benderfynu astudio’r pwnc... mae'n sicr yn cael effaith gadarnhaol."

5.7 Mae ychwanegedd y prosiect hefyd yn cynnwys twf personol cyffredinol i’r dysgwyr, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu gwell a mwy o hyder. Mae data'r arolwg yn cadarnhau hyn, gyda 70% o'r dysgwyr yn cytuno bod y sesiynau mentora wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus yn eu dosbarthiadau iaith (gweler Ffigur 3.4).

*Priodoli Effaith i'r prosiect Mentora ITM*

5.8 Tra bod ychwanegedd yn cofnodi’r manteision unigryw a gafwyd o’r prosiect, mae priodoledd ar y llaw arall yn ymwneud â’r cysylltiad uniongyrchol y gallwn ei wneud rhwng y deilliannau cadarnhaol a welwn a’r prosiect Mentora ITM, yn hytrach na mentrau neu ffactorau allanol eraill.

5.9 Mae'r data a gafwyd mewn arolygon a chyfweliadau ansoddol yn awgrymu'n gryf bod yna lefel uchel o briodoledd, yn enwedig ar gyfer y deilliannau i fentoriaid. Nododd rhai athrawon fod y prosiect Mentora ITM yn un o nifer fentrau oedd gan yr ysgol ar y gweill, ac roeddent yn ofalus i beidio â phriodoli'r holl newidiadau a welwyd i'r prosiect. Yn yr un modd, nododd y prifysgolion partner fod y prosiect yn un o nifer fach o fentrau oedd ar y gweill i annog mwy o fyfyrwyr i ddewis cyrsiau iaith yn y brifysgol. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r mentoriaid a'r athrawon mai i’r sesiynau mentora oedd diolch am y newidiadau cadarnhaol o ran agweddau tuag at ddysgu ieithoedd ac ymgysylltiad yn y dosbarth. Cyfeiriodd athrawon yn benodol at sut y gwnaeth hanesion y mentoriaid am fywyd prifysgol a’u profiadau o deithio a byw dramor ysbrydoli’r dysgwyr, gan eu helpu i ddeall mwy am fanteision hirdymor dysgu iaith.

5.10 Roedd cysylltiad i’w weld hefyd rhwng y prosiect mentora a’r cynnydd yn nyheadau gyrfa’r dysgwyr, ond i raddau llai serch hynny. Er mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd gan athrawon o ddysgwyr yn dweud eu bod am astudio ieithoedd mewn addysg uwch neu ddilyn gyrfa seiliedig ar iaith, fel y nodir uchod, mae data'r arolygon yn dangos bod Mentora ITM wedi cael dylanwad cadarnhaol ar farn y dysgwyr am fynychu prifysgol.

5.11 Mae safbwyntiau’r mentoriaid hefyd yn cefnogi priodoledd, yn enwedig mewn perthynas â’u twf proffesiynol a phersonol fel canlyniad uniongyrchol i'r profiad mentora. Dywedodd llawer o fentoriaid eu bod yn fwy hyderus wrth gyfathrebu, gyda sgiliau cyflwyno a datrys problemau, ac yn gweld cysylltiad uniongyrchol

rhwng hyn â'r prosiect. Mae data'r arolwg yn cadarnhau hyn ymhellach, gyda 99% o fentoriaid yn nodi bod y prosiect wedi rhoi sgiliau iddynt y gallent eu defnyddio yn eu gyrfa yn y dyfodol (gweler Ffigur 3.9). Ar ben hynny, er nad oedd y prosiect wedi'i gynllunio'n benodol i annog y mentoriaid i ddilyn gyrfa mewn addysg, mae'n amlwg ei fod wedi dylanwadu ar lwybrau gyrfa, gyda 66% o'r mentoriaid yn cytuno bod y profiad wedi gwneud iddynt ystyried addysgu fel proffesiwn (Ffigur 3.10). Gellir priodoli'r deilliant hwn yn gryf i'r prosiect Mentora ITM.

**Dadansoddiad Effaith**

*Cymorth i Adrannau Iaith Addysg Uwch*

5.12 Mae'r prosiect Mentora ITM wedi bod yn hanfodol wrth gynnal, neu o leiaf atal dirywiad, y ffrwd o ddysgwyr sy'n symud ymlaen i astudio iaith mewn addysg uwch. Nid yw'r dylanwad hwn i'w weld yn y data ar y niferoedd sy'n dewis ieithoedd rhyngwladol ôl-14. Yn ôl adborth y dysgwyr, yr athrawon a'r rhai sy'n helpu i ddarparu'r prosiect Mentora ITM, mae hyn yn arwydd o'r dirywiad mewn astudio ieithoedd, o ganlyniad i ystod o ffactorau systemig sydd y tu hwnt i reolaeth y prosiect. Mae'r cyfraniad hwn yn arbennig o bwysig wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu adrannau iaith prifysgolion y mae llawer ohonynt dan fygythiad oherwydd y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau. Drwy feithrin diddordeb dysgwyr mewn ieithoedd a chreu pont rhwng addysg uwchradd ac addysg uwch, mae'r rhaglen yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi sefyllfa fregus y maes addysgu ieithoedd.

5.13 Heb gefnogaeth y prosiect Mentora ITM, mae'n debyg y byddai nifer y darpar-ymgeiswyr TAR (Tystysgrif Addysg i Raddedigion) wedi lleihau hyd yn oed yn fwy dros y deng mlynedd diwethaf, gan waethygu'r prinder difrifol sydd eisoes yn bodoli o athrawon iaith cymwys, a gwanhau'r seilwaith addysg ieithoedd yng Nghymru ymhellach. Bydd y duedd hon yn debygol o barhau yn y dyfodol os na fydd y prosiect yn cael ei gynnal.

*Hyrwyddo Cydweithio a Chyd-gynhyrchu*

5.14 Mae'r prosiect Mentora ITM wedi meithrin diwylliant o gydweithio a chyd-gynhyrchu rhwng ysgolion, consortia addysg, sefydliadau addysg uwch, a rhanddeiliaid eraill. Drwy ddod â'r grwpiau hyn at ei gilydd, mae'r prosiect wedi creu rhwydweithiau cryf sy'n gwella darpariaeth ac effaith addysg iaith yn gyffredinol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu, arbenigedd yn cael ei ddefnyddio, a mentrau addysg iaith yn cael eu llywio gan amrywiaeth o safbwyntiau. Mae'r model hwn yn cyd-fynd yn agos at nodau'r Cwricwlwm i Gymru a'r Strategaeth Dyfodol Byd-eang.

*Cynnal Eiriolaeth Iaith*

5.15 Mae gwaith y prosiect Mentora ITM i hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yn sicrhau bod amlieithrwydd yn parhau i fod yn weladwy o fewn strategaethau Llywodraeth Cymru. Drwy ddangos manteision diwylliannol ac economaidd dysgu ieithoedd, mae'r rhaglen wedi dyrchafu rôl ieithoedd o fewn gweledigaeth addysgol Cymru.

5.16 Mae'r prosiect Mentora ITM yn helpu i gynyddu'r pwyslais sy'n cael ei roi ar ieithoedd, gan arafu ei ddirywiad. Mae'n rhoi lle i arloesi ac yn cynnig cyfleoedd o fewn y cwricwlwm. Mae eiriolaeth gyson y prosiect dros ieithoedd rhyngwladol yn sicrhau bod addysgu ieithoedd yn cael ei ystyried fel pwnc academaidd, ond hefyd fel porth i ddinasyddiaeth fyd-eang, cyfleoedd gyrfa, a dealltwriaeth ddiwylliannol.

*Prawf o Lwyddiant a Graddoldeb*

5.17 Mae'r prosiect Mentora ITM wedi llwyddo i wella ysgolion, rhoi hwb i'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol, a mynd i'r afael â'r sialensiau o ran agweddau tuag at addysg ieithoedd. Mae ei fodel

mentora wedi bod yn hyblyg ac yn effeithiol, gan gynnig dull unigryw o ysbrydoli dysgwyr a mentoriaid fel ei gilydd.

5.18 Mae graddoldeb y fframwaith mentora yn dangos ei botensial i gael ei ddefnyddio y tu hwnt i ieithoedd, gan weithredu fel templed ar gyfer mentrau dysgu eraill seiliedig ar ymgysylltu. Mae'r potensial hwn i'w ddefnyddio ar draws disgyblaethau yn dangos potensial arloesol y prosiect a'i allu i fynd i'r afael â nodau addysgol ehangach.

## 6. Casgliadau

6.1 Mae'r prosiect Mentora ITM wedi cael effaith arwyddocaol ar ddysgwyr, mentoriaid ac ysgolion ledled Cymru. Mae wedi ailgynnau diddordeb mewn dysgu ieithoedd, wedi rhoi cyfleoedd i fentoriaid a'u helpu i lunio gyrfa, ac wedi cefnogi ysgolion i fynd i'r afael â bylchau adnoddau. Drwy feithrin amlieithrwydd, mae'r prosiect yn cyd-fynd yn effeithiol â'r Cwricwlwm i Gymru.

6.2 Mae'r prosiect yn cefnogi Strategaeth Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol drwy ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ysgolion ymgysylltu â myfyrwyr prifysgol. Mae'n gwneud hyn drwy gyfrwng sesiynau mentora a gweithdai i ddysgu am amlieithrwydd a diwylliant a rhoi sgiliau a gwybodaeth hanfodol i ddysgwyr ac addysgwyr.

6.3 Ar ben hynny, mae synergedd y prosiect ag addysg iaith Gymraeg yn cynnig cyfleoedd arwyddocaol ar gyfer integreiddio dyfnach. Gan fanteisio ar dreftadaeth ddwyieithog Cymru, gall y prosiect Mentora ITM fod yn fodel ar gyfer ymgorffori amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

6.4 Serch hynny, mae heriau. Mae'r cylchoedd cyllido tymor byr yn gwneud cynaliadwyedd a chynllunio ar gyfer y tymor hir yn anodd. Gall rhwystrau logistaidd, megis gwrthdaro amserlenni a diffyg adnoddau mewn ysgolion, effeithio ar allu ysgolion i ddarparu'r prosiect. Hefyd, mae camdybiaethau systemig am werth ieithoedd yn parhau. Rhaid mynd i'r afael â'r problemau hyn er mwyn rhyddhau potensial y prosiect yn llawn. Mae edrych i'r dyfodol, parhau i ddarparu cyllid a gwneud gwelliannau strategol yn hollbwysig. Bydd cryfhau'r cysylltiadau rhwng ieithoedd rhyngwladol a mentrau iaith Gymraeg, goresgyn problemau logistaidd, a hyrwyddo rôl addysgu ieithoedd wrth gryfhau dinasyddiaeth fyd-eang yn helpu i sicrhau gwaddol y prosiect.

6.5 Wrth i Gymru symud ymlaen tuag at ei gweledigaeth i ddod yn genedl amlieithog, mae'r prosiect Mentora ITM yn esiampl o bŵer trawsnewidiol addysg wrth siapio unigolion a chymunedau. Bydd

parhau gyda'r buddsoddi ac arloesi yn sicrhau parhad ei lwyddiant a'i gyfraniad at ddyfodol addysg ieithoedd yng Nghymru.

## 7. Argymhellion

**Argymhellion Strategol ar gyfer Mentora ITM yn y Dyfodol**

*Cylchoedd Cyllido Tymor Hwy*

7.1 Mae'r gwerthuswyr yn argymell bod Llywodraeth Cymru, lle bo'n bosibl, yn ystyried ariannu'r prosiect Mentora ITM mewn cylchoedd tymor hwy er mwyn caniatáu ar gyfer cynllunio strategol gwell a datblygu effaith y prosiect yn raddol dros amser. Bydd cyllid tymor hwy yn caniatáu i dîm y prosiect gynnal eu capasiti ac addasu cynllun y prosiect, er mwyn cefnogi ysgolion ac athrawon yn effeithiol a bodloni amcanion y Strategaeth Dyfodol Byd-eang.

*Manteisio ar Gryfderau Dwyieithog Cymru*

7.2 Ar sawl pwynt yn ystod y gwerthusiad, cafodd gwerth y Gymraeg ei grybwyll gan wahanol randdeiliaid a defnyddwyr, ynghyd â'i rôl fel nodwedd wahaniaethol o fewn cyd-destun ehangach y DU. Caiff dwyieithrwydd Cymru ei ystyried gan lawer fel mantais, gan arddangos hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol unigryw.

7.3 Fodd bynnag, caiff y Gymraeg ac ieithoedd rhyngwladol eu hystyried fel blaenoriaethau gwahanol yn aml, neu hyd yn oed fel rhai sy'n cystadlu â'i gilydd mewn cyd-destunau polisi ac addysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i gyfuno a chydweithio'n strategol.

7.4 Yn 2024, fe dreialodd Mentora ITM brosiect mentora amlieithog mewn ysgolion cynradd yn ne Cymru, wedi'i ariannu'n allanol. Roedd y prosiect yn dod â'r Gymraeg, y Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol ynghyd, gan hyrwyddo addysg amlieithog a rhoi profiad o amlieithrwydd i ddysgwyr cynradd yn gynnar, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae posibilrwydd i ymestyn gwaith Mentora ITM ymhellach mewn ysgolion cynradd i wella'u darpariaeth amlieithog. Gellid

ystyried hyn yn welliant i'r prosiect presennol, ond byddai angen adnoddau ychwanegol.

7.5 Rydym ni'n argymell cyfuno addysgu ieithoedd rhyngwladol ag addysgu a hyrwyddo'r Gymraeg a'r Saesneg mewn ysgolion yn gynharach drwy fframwaith cytbwys ac ategol. Mae'r prosiect Mentora ITM eisoes wedi treialu mentora mewn ysgolion cynradd, gan ddangos ei botensial i greu dysgwyr amlieithog. Byddai cyfuno Mentora ITM â mentrau iaith Gymraeg ar y lefel gynradd yn gwella addysg amlieithog ac yn rhoi profiad o fwy nag un iaith i blant o oedran cynnar. Trwy ddarparu Mentora ITM mewn ysgolion cynradd, bydd ei welededd yn cynyddu, gan gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn ei gamau cynnar. Mae'n gyfle i arbenigwyr (fel tîm prosiect Mentora ITM) baratoi canllawiau ar sut gallai'r fframwaith hwn weithio.

7.6 Nododd athrawon a mentoriaid fod dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn aml yn ei chael yn haws caffael ieithoedd ychwanegol oherwydd eu profiad dwyieithog. Mae hyn yn tanlinellu'r potensial ar gyfer dull strwythuredig sy'n cyfuno Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol i atgyfnerthu sgiliau caffael iaith o oedran cynnar.

**Awgrymiadau ar gyfer Gwella'r Broses o Gynllunio, Gweithredu a Gwerthuso'r Prosiect**

*Cyfuno Gwersi*

7.7 Fel y soniwyd ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn, roedd gan athrawon ddiddordeb deall pa bynciau fydd y sesiynau mentora yn eu trafod er mwyn iddynt allu creu cynlluniau gwersi, neu o leiaf eu paratoi, i gyd-fynd â'r sesiynau mentora. Byddai hyn yn caniatáu i'r dysgwyr wneud cysylltiadau cadarnhaol rhwng eu sesiynau Mentora ITM a'u gwersi iaith mwy ffurfiol. I gefnogi hyn, mae ystod o adnoddau sy'n ategu'r cwricwlwm ar gael ar wefan Mentora ITM. Gall y deunyddiau hyn eich helpu i gyfuno themâu'r sesiynau mentora â gwersi'r ystafell dosbarth.

7.8 Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn adeiladu ar yr adborth cadarnhaol gan athrawon i'r adnoddau Mentora ITM maen nhw wedi'u defnyddio.

Gall hyn hefyd sicrhau bod gweddill y dosbarth yn gallu manteisio ar y gweithgareddau, er na chawsant eu dewis i gymryd rhan yn y sesiynau mentora.

*Cyflwyno'r Prosiect i Ddysgwyr*

7.9 Er bod amser yn brin i athrawon, argymhellir eu bod yn cyflwyno’r prosiect Mentora ITM yn well cyn i’r sesiynau ddechrau a’u bod hefyd yn cyflwyno’r mentoriaid i’r dysgwyr yn ystod y sesiwn gyntaf. Bydd hyn yn helpu’r dysgwyr i ddeall pwrpas y prosiect ac ym mha ffordd mae disgwyl iddyn nhw gyfrannu ato. Roedd hyn yn gais arbennig gan y dysgwyr yn unol â pharagraff 3.43.

7.10 O ystyried bod athrawon yn brin o amser, gallai fod o gymorth pe bai tîm y prosiect Mentora ITM yn paratoi gweithgaredd cyn y sesiynau mentora ar gyfer y dysgwyr fydd yn cymryd rhan ynddynt. Dylai’r gweithgaredd hwn fod yn ddifyr ac yn addysgiadol, er mwyn eu helpu i ddeall mwy am y sesiynau a beth i'w ddisgwyl.

*Cefnogaeth Mentor i Fentor*

7.11 Rydym yn argymell sefydlu grŵp cymorth anffurfiol ar gyfer y mentoriaid er mwyn iddynt allu helpu a gofyn cwestiynau i'w gilydd. Gallai hyn leihau rhywfaint o’r baich gweinyddol sydd ar dîm y prosiect Mentora ITM yn y tymor hir, gan hefyd wella hyder y mentoriaid cyn iddynt ymweld â’r ysgol yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi hefyd fod cyfleoedd i baratoi ac ymgysylltu wedi cael eu cynnig yn y gorffennol, ac y bu’n anodd annog y mentoriaid i fanteisio ar y cyfleoedd yn llawn oherwydd y gofynion eraill ar eu hamser. Drwy addasu sut mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu hysbysebu, neu newid eu fformat, gallwn helpu i sicrhau eu bod yn cyfateb yn well i argaeledd ac anghenion y mentoriaid.

7.12 Yn unol â pharagraff 3.33, roedd y mentoriaid yn teimlo y byddai cyfle i rannu gwersi defnyddiol, gofyn cwestiynau cyffredin a dod i adnabod mentoriaid eraill sydd â diddordebau tebyg yn fuddiol iddynt. Caiff hyn ei ystyried fel rhywbeth sy’n ychwanegu at werth y prosiect i'r mentoriaid a gallai wella deilliannau’r prosiect hefyd. Yn ogystal, nid yw’n golygu ymdrech fawr gan y rhai sy'n rhedeg y prosiect.

# Atodiad A – Canllawiau Pynciau ar gyfer Gwaith Maes Gwerthuso

Isod mae'r 'canllawiau pynciau' a ddefnyddiwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad hwn. Dylid ystyried y canllawiau hyn fel fframwaith eang o themâu, pwyntiau siarad, a sbardunau sgwrs yn hytrach na set anhyblyg o gwestiynau i'w gofyn un ar ôl y llall ac/neu ar lafar. Mae cyd-destun a dynameg arbennig pob cyfweliad yn aml yn arwain at wyro oddi wrth y canllaw. O ganlyniad, ni ofynnwyd pob un o’r cwestiynau ym mhob cyfweliad, a gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i'r rhai a restrwyd i ddarganfod mwy am bynciau wrth iddynt godi yn ystod y trafodaethau.

**Cwestiynau i'r Tîm Darparu:**

*Cyflwyniad a Rôl*

- Allwch chi gyflwyno eich hun a'ch rôl mewn perthynas â'r Prosiect ITM, yn ogystal â pha mor hir rydych wedi bod yn gweithio ar y prosiect?

*Trosolwg o’r Prosiect*

- Beth yw'r Prosiect Mentora ITM? Beth yw ei nodau a'i amcanion sylfaenol?

- Sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r nodau addysgol ehangach yng Nghymru, yn enwedig y Cwricwlwm i Gymru?

*Esblygiad y Prosiect*

- Sut mae'r prosiect wedi esblygu ers ei sefydlu?
- Sut, os o gwbl, mae nodau ac amcanion y Prosiect Mentora ITM wedi newid dros amser?

*Darparu a Gweithredu*

- Sut mae'r Prosiect Mentora ITM yn cael ei ddarparu yn y bôn? (manylion sut i'w ddarparu)

*Heriau a Rhwystrau*

- Beth yw'r prif heriau rydych chi wedi dod ar eu traws wrth ddarparu'r Prosiect Mentora ITM dros y naw mlynedd diwethaf?
- Sut ydych chi wedi mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn neu'n bwriadu mynd i'r afael â nhw? I ba raddau ydych chi wedi llwyddo i'w goresgyn?

*Recriwtio a Hyfforddi Mentoriaid*

- Sut mae mentoriaid yn cael eu recriwtio ar gyfer y Prosiect Mentora ITM?
- Pa mor llwyddiannus fu'r broses o recriwtio mentoriaid?
- Pa hyfforddiant mae mentoriaid yn ei dderbyn cyn iddynt ddechrau gweithio gyda dysgwyr?
- Pa mor effeithiol yw'r rhaglen hyfforddi bresennol wrth baratoi mentoriaid?

*Adnoddau a Chymorth*

- I ba raddau mae'r prosiect wedi cael digon o adnoddau i gyflawni ei nodau a'i amcanion?
- Pa adnoddau neu gymorth, os o gwbl, sydd ar goll?

*Ymgysylltiad ac Effaith*

- Pa strategaethau sydd wedi bod fwyaf effeithiol wrth gynyddu diddordeb y dysgwyr mewn dysgu ITM?
- Allwch chi rannu unrhyw lwyddiannau neu newidiadau amlwg yn agweddau'r dysgwr tuag at ITM?
- Pa effaith mae'r prosiect wedi'i chael ar ddewisiadau academaidd dysgwyr, yn enwedig o ran dewis ITM ar lefel TGAU?
- Ydych chi wedi gweld unrhyw dueddiadau o ran yr ysgolion/dysgwyr sy'n fwy neu lai tebygol o gymryd rhan yn y prosiect? Os felly, ceisiwch ymhelaethu.
- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw effeithiau eraill ar y dysgwyr o ran twf personol neu sgiliau?
- Ydych chi wedi gweld unrhyw ddeilliannau/effeithiau anfwriadol neu annisgwyl?

*Adborth a Gwelliannau*

- Sut ydych chi'n casglu ac yn defnyddio adborth gan fentoriaid, dysgwyr ac ysgolion i wella'r prosiect?
- Allwch chi roi enghreifftiau o addasiadau neu newidiadau a wnaed i'r prosiect yn seiliedig ar adborth?

*Cynaliadwyedd ac Arloesedd*

- Beth ydych chi'n credu fyddai cyflwr presennol y niferoedd sy'n astudio ITM ac agweddau dysgwyr tuag at ITM heb y prosiect mentora?
- Beth yw eich cynlluniau ar gyfer cynnal y Prosiect Mentora ITM yn y tymor hir?
- Oes unrhyw arferion neu ddulliau arloesol rydych chi wedi'u mabwysiadu yn y Prosiect Mentora ITM a allai, yn eich barn chi, gael eu mabwysiadu fel arferion gorau ar gyfer mentrau addysgol eraill?
- Ydych chi'n bwriadu integreiddio technolegau neu fethodolegau newydd i'r prosiect mentora i wella ei effeithiolrwydd? Os felly, ceisiwch ymhelaethu.

*Y Dyfodol i Addysg ITM*

- Pa ddyfodol ydych chi'n ei ragweld ar gyfer addysg ITM yng Nghymru heb gymorth y cynllun mentora hwn?
- Pa gyfleoedd sy'n bodoli?

*Mewnbwn Ychwanegol*

- Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei rannu am eich profiadau, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol?

**Cwestiynau i Athrawon:**

*Cyflwyniad a Chefndir*

- Allwch chi gyflwyno eich hun a disgrifio eich rôl o fewn yr ysgol?
- Pa mor hir ydych chi wedi bod yn rhan o'r Prosiect Mentora ITM?
- Sut wnaeth eich ysgol glywed am/ dechrau cymryd rhan yn y Prosiect Mentora ITM yn y lle cyntaf?

*Cymhellion ac Amcanion*

- Beth ysgogodd yr ysgol i gymryd rhan yn y prosiect yn y lle cyntaf?
- Beth oeddech chi/eich ysgol yn gobeithio ei ennill o gymryd rhan yn y prosiect?

*Sesiynau Mentora*

- Beth yw eich barn chi am strwythur a fformat y sesiynau mentora?
- Sut, os o gwbl, fyddech chi’n eu gwella?
- Sut mae'r sesiynau mentora’n cael eu cyfuno yn amserlen yr ysgol?
- Beth yw eich rôl chi wrth hwyluso neu gefnogi'r sesiynau hyn?

*Cydweithio a Chydlynu*

- Sut ydych chi'n cysylltu â'r mentoriaid ITM?

- Beth sydd wedi gweithio'n dda wrth gydweithio fel hyn, a beth fyddech chi’n ei wella?
- Allwch chi ddisgrifio eich profiad o weithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar y prosiect hwn?

*Heriau a Rhwystrau*

- Pa heriau neu rwystrau strwythurol (e.e. amserlennu, dyrannu adnoddau), os o gwbl, ydych chi wedi dod ar eu traws wrth weithredu'r Prosiect Mentora ITM yn eich ysgol?
- Sut, os o gwbl, mae'r rhwystrau neu'r heriau hyn wedi dylanwadu ar effeithiolrwydd y sesiynau mentora?

*Effeithiau a Welwyd*

- Pa effaith ydych chi wedi gweld y Prosiect Mentora ITM yn ei chael ar agweddau dysgwyr tuag at ddysgu ieithoedd?
- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn hyder, dyheadau gyrfa, neu sgiliau ehangach dysgwyr?
- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio ITM ar lefel TGAU?
- I ba raddau ydych chi'n priodoli unrhyw newid i'r Prosiect Mentora ITM?
- Ydych chi wedi gweld unrhyw ddeilliannau neu effeithiau annisgwyl o gymryd rhan yn y prosiect?

*Tueddiadau a Chynhwysiant*

- Oes unrhyw batrymau penodol i’w gweld o ran ymgysylltiad dysgwyr â'r prosiect? Er enghraifft, oes rhai grwpiau o ddysgwyr yn fwy tebygol o ymgysylltu nag eraill?
- Sut mae'r rhaglen yn ymgysylltu â dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol?

*Integreiddio Iaith*

- Sut ydych chi'n gweld y berthynas rhwng addysgu ITM ac addysgu’r iaith Gymraeg yn eich ysgol?

- Ydyn nhw'n gorgyffwrdd, yn ategu ei gilydd, neu'n gwrthdaro o ran amserlennu, adnoddau, a/neu ddewisiadau'r dysgwyr?

*Adborth a Gwelliannau*

- Sut ydych chi'n rhoi adborth i dîm y prosiect am eich profiadau â'r Prosiect Mentora ITM?
- Allwch chi rannu unrhyw enghreifftiau o newidiadau neu welliannau sydd wedi cael eu gwneud i'r prosiect yn seiliedig ar eich adborth?

*Cynaliadwyedd a'r Dyfodol*

- Beth yw eich cynlluniau ar gyfer cynnal y Prosiect Mentora ITM yn y tymor hir?
- Pa ddyfodol ydych chi'n ei ragweld i addysg ITM yn eich ysgol, gyda neu heb gymorth y prosiect mentora?
- Beth fyddai'n cael ei golli heb y Prosiect Mentora ITM?

*Mewnbwn Ychwanegol*

- Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei rannu am eich profiadau gyda'r Prosiect Mentora ITM, neu oes gennych chi awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol?

**Cwestiynau i Fentoriaid:**

*Cyflwyniad a Rôl*

- Allwch chi gyflwyno eich hun a'ch rôl mewn perthynas â'r Prosiect Mentora ITM?
- Allwch chi ddisgrifio beth yw eich rôl fel mentor o ddydd i ddydd?
- Beth yw eich prif weithgareddau a chyfrifoldebau yn ystod sesiwn fentora?

*Strwythur y Sesiwn ac Ymgysylltiad*

- Sut ydych chi'n strwythuro eich sesiynau mentora?

- Pa ddulliau neu dechnegau ydych chi'n eu defnyddio i ennyn diddordeb y dysgwyr yn ystod y sesiynau hyn?

*Cymhelliant a Recriwtio*

- Beth wnaeth eich denu at y Prosiect Mentora ITM yn y lle cyntaf?
- Sut glywsoch chi am y cyfle i fod yn fentor?
- Oedd gennych chi unrhyw bryderon ynghylch dod yn fentor?
- Sut cawsoch chi eich recriwtio ar gyfer y Prosiect Mentora ITM?
- Pa agweddau ar y broses recriwtio oedd fwyaf effeithiol yn eich barn chi?
- Oedd unrhyw rannau o'r broses recriwtio yn ddryslyd neu'n heriol i chi?

*Hyfforddiant a Pharatoi*

- Pa hyfforddiant wnaethoch chi ei dderbyn cyn dechrau ar eich rôl fel mentor?
- Pa mor dda wnaeth yr hyfforddiant eich paratoi ar gyfer eich cyfrifoldebau mentora?
- Oedd unrhyw sesiynau hyfforddi neu adnoddau penodol yn arbennig o ddefnyddiol i chi?
- Sut, os o gwbl, fyddech chi’n gwella'r rhaglen hyfforddi er mwyn paratoi mentoriaid newydd yn fwy effeithiol?

*Cyflwyniad i Ysgolion a Dysgwyr*

- Sut oeddech chi wedi cael eich cyflwyno i'r ysgolion a'r dysgwyr roeddech chi’n mynd i’w mentora?
- Oedd unrhyw wybodaeth neu gymorth penodol fyddech chi wedi dymuno ei gael cyn dechrau yn yr ysgolion?

*Heriau a Chymorth*

- Pa heriau wnaethoch chi eu hwynebu fel mentor?
- Pa mor dda gawsoch chi eich helpu i ymateb i’r heriau hyn?

- Oes unrhyw rwystrau strwythurol penodol (e.e., amserlennu, dyrannu adnoddau) sydd wedi dylanwadu ar eich gallu i fentora'n effeithiol?

*Cydweithio ac Adborth*

- Sut ydych chi'n rheoli’r broses o gyfathrebu a chydlynu ag athrawon a staff y prosiect?
- Sut ydych chi'n rhoi adborth i dîm y prosiect am eich profiadau mentora?

*Effeithiau a Llwyddiannau*

- Allwch chi rannu unrhyw lwyddiannau neu newidiadau amlwg yn agweddau'r dysgwr tuag at ITM?
- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw effeithiau eraill ar y dysgwyr, megis twf personol neu sgiliau?

*Datblygiad Proffesiynol*

- Sut mae eich rôl fel mentor wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol eich hun?
- Oeddech chi wedi ystyried dysgu fel gyrfa cyn dod yn fentor?
- Ydy’r profiad hwn wedi dylanwadu ar eich diddordeb mewn addysgu fel gyrfa?

*Awgrymiadau a Gwelliannau*

- Pa gymorth neu adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i wella'r Prosiect Mentora ITM ymhellach yn eich barn chi?
- Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei rannu am eich profiadau, neu oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol?

**Cwestiynau i Ddysgwyr (sy’n cael eu mentora) yn ystod y sesiynau dysgwr i ddysgwr:**

*Dewisiadau TGAU a Diddordebau*

- Pa opsiynau ydych chi'n ystyried eu dewis ar gyfer TGAU ar hyn o bryd?
- Faint o ddiddordeb oedd gennych chi mewn ieithoedd cyn i chi gofrestru ar gyfer y cynllun mentora ITM?

*Amlygiad i Ieithoedd*

- Faint o brofiad ydych chi'n ei gael yn eich bywyd bob dydd o bobl sy'n siarad ieithoedd heblaw am Saesneg?

*Argraffiadau Cyntaf a Disgwyliadau*

- Beth oedd eich argraffiadau cyntaf pan glywsoch chi eich bod wedi cael eich dewis i gymryd rhan yn y cynllun mentora?
- Beth oeddech chi'n disgwyl byddech chi'n ei wneud yn y cynllun mentora?

*Adborth ar y Mentor*

- Yn eich barn chi, sut allai'r mentor wella y tro nesaf, pe bai'n dod eto?

*Effaith ar Agweddau a Sgiliau*

- Ers cymryd rhan yn y broses, sut mae eich agwedd wedi newid tuag at ieithoedd?
- Ydy'r broses wedi gwella eich sgiliau cyfathrebu neu hyder?
- Ydy'r broses wedi newid eich agweddau neu safbwyntiau am fynd i'r brifysgol?
- Oedd gennych chi unrhyw bryderon neu amheuon? Oeddech chi'n teimlo'n gyffrous?
- Oedd gennych chi unrhyw gwestiynau am y broses? Os felly, wnaeth eich athro ateb y rhain?

*Mwynhad ac Adborth*

- Pa bynciau trafod oeddech chi wedi eu mwynhau fwyaf?
- Beth wnaethoch chi ei fwynhau leiaf?
- Oes gennych chi unrhyw adborth ar eich profiad o gael eich mentora?

- Beth oedd eich hoff foment neu eich profiad gorau o'r sesiynau mentora?

*Awgrymiadau ar gyfer Gwella*

- Oes unrhyw beth arall y byddech chi wedi ei hoffi yn y broses fentora?
- Beth arall fyddai’n gallu cael ei wneud i hyrwyddo ieithoedd mewn ysgolion?

*Safbwyntiau Ychwanegol*

- Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei rannu am eich profiadau, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol?

**Cwestiynau i bartneriaid Consortia:**

*Cyflwyniad a Chyfranogiad*

- Beth yw natur eich perthynas â'r Prosiect Mentora ITM?
- Ers faint ydych chi wedi bod yn rhan o'r Prosiect Mentora ITM?

*Cefnogaeth ac Esblygiad*

- Sut mae'r rhaglen ITM yn cefnogi'r consortia?
- Sut mae'r prosiect wedi esblygu ers ei sefydlu?

*Nodau a Darpariaeth*

- Beth ydych chi wedi ei ddeall yw prif nodau ac amcanion y Prosiect Mentora ITM?
- Sut mae'r Prosiect Mentora ITM yn cael ei ddarparu o fewn eich consortiwm?
- Sut ydych chi'n cydweithio â'r ysgolion neu'r mentoriaid/Prifysgol Caerdydd i ddarparu’r prosiect?

*Heriau a Rhwystrau*

- Beth yw'r prif heriau rydych chi wedi'u hwynebu wrth ddarparu’r Prosiect Mentora ITM?

- Oes rhwystrau strwythurol penodol (e.e., amserlennu, dyrannu adnoddau) sydd wedi effeithio ar y broses o ddarparu’r prosiect?
- Sut mae'r rhwystrau hyn wedi dylanwadu ar effeithiolrwydd y prosiect?

*Adnoddau a Chymorth*

- Oes adnoddau neu gymorth penodol ar goll yn eich barn chi?

*Effaith a Thueddiadau*

- Pa effaith mae'r prosiect wedi'i chael ar eich consortiwm?
- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw dueddiadau o ran yr ysgolion neu’r dysgwyr sy'n fwy tebygol o gymryd rhan yn y prosiect?

*Ystyriaethau yn y Dyfodol*

- Beth fyddai'n cael ei golli heb y Prosiect Mentora ITM yn eich barn chi?
- Beth yw eich syniadau ar gyfer cynnal y Prosiect Mentora ITM yn y tymor hir?

**Cwestiynau i Staff/Arweinwyr yn y Brifysgol:**

*Cyflwyniad a Rôl*

- Allwch chi gyflwyno eich hun a disgrifio eich rôl o fewn y brifysgol?
- Beth yw natur eich perthynas â'r Prosiect Mentora ITM?
- Ers faint mae eich prifysgol wedi bod yn rhan o'r Prosiect Mentora ITM?

*Esblygiad*

- Sut mae'r prosiect wedi esblygu ers ei sefydlu?
- Sut mae'r berthynas gyda'r tîm/Prosiect ITM wedi esblygu dros y blynyddoedd?

*Nodau a Darpariaeth*

- Beth ydych chi wedi ei ddeall yw prif nodau ac amcanion y Prosiect Mentora ITM?
- Sut mae'r Prosiect Mentora ITM yn cael ei ddarparu o fewn eich consortiwm?

*Profiad y Myfyrwyr*

- Sut mae myfyrwyr yn disgrifio eu profiad o’r Prosiect ITM?

*Heriau a Rhwystrau*

- Beth yw'r prif heriau rydych chi wedi'u hwynebu wrth hyrwyddo neu weithio gyda’r Prosiect Mentora ITM?
- Oes rhwystrau strwythurol penodol (e.e., capasiti myfyrwyr) sydd wedi effeithio ar ddarparu’r prosiect a gallu myfyrwyr i gymryd rhan ynddo?

*Adnoddau a Chymorth*

- Oes adnoddau neu gymorth penodol ar goll yn eich barn chi?
- Pa gymorth neu adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i wella'r Prosiect Mentora ITM ymhellach yn eich barn chi?

*Effaith*

- O safbwynt academaidd, pa effaith mae'r prosiect wedi'i chael yn eich prifysgol?
- Beth fyddai'n cael ei golli heb y Prosiect Mentora ITM yn eich barn chi?

*Ystyriaethau yn y Dyfodol*

- Beth yw eich syniadau ar gyfer cynnal y Prosiect Mentora ITM yn y tymor hir?
- Beth ydych chi’n ei ragweld yw’r dyfodol i addysg ITM yng Nghymru?

*Mewnbwn Ychwanegol*

- Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei rannu am eich profiadau, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol?

# Atodiad B – Model Rhesymeg y Prosiect Mentora ITM

| ANGEN<br>*Pam mae angen Mentora ITM?* | AMCANION<br>*Beth mae Mentora ITM yn ceisio ei gyflawni?* | MEWNBWN<br>*Beth yw mewnbwn Mentora ITM i gyflawni'r amcanion hyn?* | GWEITHGAREDDAU<br>*Sut mae Mentora ITM yn defnyddio'r mewnbwn hwn i gyflawni'r amcanion hyn?* | ALLBWN<br>*Beth mae'r prosiect Mentora ITM yn ei gynhyrchu'n uniongyrchol?* | DEILLIANNAU<br>*Beth yw canlyniadau tymor byr a chanolig yr allbwn hwn?* | EFFEITHIAU<br>*Beth yw canlyniadau tymor hir yr allbwn yma?* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ANG.1: Mynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr ysgol uwchradd sy'n astudio ITM<br><br>ANG.2: Gwella cymhelliant a safbwyntiau dysgwyr mewn perthynas ag ITM<br><br>ANG.3: Cyfuno ITM yn effeithiol o fewn y Cwricwlwm i Gymru newydd<br><br>ANG.4: Gwella'r ffordd y caiff ITM eu gweld o gymharu â phynciau eraill, yn arbennig pynciau STEM a phynciau gorfodol fel Cymraeg a Saesneg | AM.1: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis ITM ar lefel TGAU<br><br>AM.2: Gwella agweddau a chymhellion dysgwyr tuag at ddysgu ITM<br><br>AM.3: Hyrwyddo ITM fel rhan werthfawr a difyr o'r cwricwlwm<br><br>AM.4: Annog dysgwyr i feithrin hunaniaeth amlieithog<br><br>AM.5: Gwella'r ffordd y caiff ITM eu cyfuno â phynciau eraill yn y Cwricwlwm i Gymru | **Adnoddau Dynol**<br><br>**M.1: Myfyrwyr prifysgol fel mentoriaid**<br><br>**M.2: Athrawon ysgol uwchradd**<br><br>**M.3: Staff cefnogi a rheoli prosiect, partner brifysgolion**<br><br>**M.4: Consortia yn codi ymwybyddiaeth ymysg rhanddeiliaid**<br><br>**Cyllid a Deunyddiau**<br><br>**M.5: Cyllid blynyddol gan Strategaeth Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru**<br><br>**M.6: Adnoddau ar gyfer datblygu deunyddiau mentora a gweithdai**<br><br>**M.7: Platfformau digidol ar gyfer mentora cyfunol ac ar-lein.** | G.1: Mentora<br><br>G.2: Gweithdai AC.1: Mentoring<br><br>G.3: Hyfforddiant a Chefnogaeth<br><br>G.4: Datblygu Adnoddau<br><br>G.5: Gwerthusn a Chasglu Data | ALL.1: Sesiynau Mentora wedi cael eu darparuOP.1: Mentoring Sessions Delivered<br><br>ALL.2: Mentoriaid ac Athrawon wedi cael eu hyfforddi<br><br>ALL.3: Adnoddau wedi cael eu dosbarthu<br><br>ALL.4: Deunyddiau dysgu ieithoedd wedi cael eu dosbarthu i ysgolion<br><br>ALL.5: Adnoddau digidol wedi cael eu darparu ar gyfer mentora a dysgu o bell | **Tymor byr**<br>**D.1: Cynnydd o ran diddordeb a chymhelliant**<br><br>**D.1A: Dysgwyr yn dangos mwy o ddiddordeb a chymhelliant i ddysgu ieithoedd**<br><br>**D.1B: Newid cadarnhaol o ran agweddau tuag at amlieithrwydd ac amrywiaeth ddiwylliannol**<br><br>**D.2: Sgiliau a phrofiadau gwell i fentoriaid**<br><br>**D.2A: Mentoriaid yn ennill sgiliau addysgu a sgiliau proffesiynol**<br><br>**D.2B: Mentoriaid yn deall gwerth ac effaith addysgu ieithoedd yn well**<br><br>**Tymor canolig**<br>**D.3: Niferoedd uwch yn astudio ITM ar lefel TGAU**<br><br>**D.3A: Niferoedd uwch yn cofrestru ar gyrsiau ITM ar lefel TGAU**<br><br>**D.3B: Addysg ieithoedd yn cael ei gyfuno o fewn y Cwricwlwm i Gymru newydd yn fwy effeithiol**<br><br>**D.4: Gwella addysg ITM**<br><br>**D.4A: Athrawon yn teimlo'n fwy hyderus ac wedi'u paratoi'n well i addysgu ieithoedd**<br><br>**D.4B: Mwy o ddefnydd o ddulliau amlieithog mewn ystafelloedd dosbarth** | **Cynnydd Parhaus o ran Dysgu Ieithoedd**<br><br>**EFF.1: Cynnydd tymor hir yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio ieithoedd ar lefelau uwch**<br><br>**EFF.2: Gwell rhagolygon gyrfa a sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang ymhlith myfyrwyr**<br><br>**Effaith Ddiwylliannol a Chymdeithasol Ehangach:**<br><br>**EFF.3: Mwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol a gallu i werthfawrogi amrywiaeth ieithyddol**<br><br>**EFF.4: Cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, prifysgolion a chymunedau lleol**<br><br>**Effaith Economaidd:**<br><br>**EFF.5: Gwell rhagolygon swyddi i fyfyrwyr â sgiliau amlieithog**<br><br>EFF.6: Cyfrannu at nodau economaidd Llywodraeth Cymru drwy weithlu amlieithog |

MENTORA **ITM**
**MFL** MENTORING

**Ffactorau Allanol**
- Cwricwlwm Ysgolion Cymru
- COVID-19

MILLER
Research Evaluation Consulting

01873 851880

info@miller-research.co.uk

miller-research.co.uk/

MILLER

Research Evaluation Consulting